


Creadigrwydd Gwreiddiol  
Original Creativity



Adroddiad Blynyddol  
Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru 2003-2004

Annual Report of the  
National Museums & Galleries of Wales 2003-2004

Cyhoeddwyd gan:  
Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NP

Golygydd: Robin Gwyn  
Testun Cymraeg: Ifan Saer, Catherine Jones  
Cynhyrchu: Mari Gordon  
Lluniau'r clawr blaen a chefn © Paul Avis  
Dylunio: Andrew Griffiths Design  
Argraffu: HSW Print

© Amgueddfa Genedlaethol Cymru, 2004.  
Mae gan yr holl luniau © Amgueddfa Genedlaethol Cymru  
oni nodir fel arall. Am ganiatâd i atgynhyrchu lluniau, ffoniwch  
Mentrau AOCC ar +44 (0)29 20573280.

ISBN 0 7200 0553 1

I gael copi o Adroddiad Ariannol llawn AOCC, ffoniwch y  
Cyfarwyddwr Cyllid ar +44 (0)29 20573284.

Mae'r Adroddiad hwn ac Adroddiad Ariannol AOCC ar gael  
ar safle gwe AOCC sef [www.aocc.ac.uk](http://www.aocc.ac.uk).

Published by:  
National Museums & Galleries of Wales  
Cathays Park  
Cardiff  
CF10 3NP

Editor: Robin Gwyn  
Welsh text: Ifan Saer, Catherine Jones  
Production: Mari Gordon  
Front and back cover images © Paul Avis  
Design: Andrew Griffiths Design  
Printing: HSW Print

© National Museum of Wales, 2004.  
All images are © National Museum of Wales unless stated  
otherwise. For permission to reproduce images, please  
contact NMGW Enterprises, +44 (0)29 20573280.

ISBN 0 7200 0553 1

For a copy of NMGW's full Financial Report please contact  
the Director of Finance, +44 (0)29 20573284.

This Report, and NMGW's Financial Report, are available on  
NMGW's website, [www.nmgw.ac.uk](http://www.nmgw.ac.uk).

Argraffwyd yr adroddiad hwn ar bapur ecogyfeillgar.

- Papur heb gloriin yw hwn (Papur TCF). Mae hyn yn golygu bod y mwydion papur wedi cael eu cannu heb ddefnyddio unrhyw gemegau clorin o gwbl. Cymysgedd o hydrogen perocsid ac ocsigen yw'r hylifau cannu sy'n cael eu defnyddio erbyn hyn. Nid yw'r rhain yn creu tocsinau niweidiol, ond maen nhw'n rhoi'r un canlyniad.

- Dim ond o gyflenwyr sy'n gweithredu fforestydd cynaliadwy y daw'r deunyddiau crai a brynwyd o'r tu allan. Sgil-gynnyrch prosesau cynhyrchu eraill yw llawer o'r deunyddiau crai h.y. gwastraff melinau llifio a gwastraff o deneuo fforestydd (coed afiach, coed sydd wedi'u difrodi neu a fyddai'n cael eu llosgi fel arall).

This report is printed on environmentally friendly paper.

- The paper is Totally Chlorine Free (TCF). This means that the pulp has been bleached without the use of any chlorine chemicals whatsoever. The bleaching agents now used are a mixture of hydrogen peroxide and oxygen, which do not generate harmful toxins and give the same result.

- Raw materials purchased from outside sources are only acquired from suppliers operating sustainable forest reserves. A great proportion of the raw material used is the by-product from other production processes i.e. sawmill waste and waste from forest thinning (the trees used are either diseased or damaged or would otherwise be burned).

# Cynnwys

<b>Ariannu creadigrwydd</b> Noddwyr hael AOCC	4/5
<b>Ein gwreiddiau</b> Delfrydau, nodau ac amcanion gwreiddiol AOCC	6/7
<b>Doniau creadigol</b> Rhagair y Llywydd	8
<b>Creu gweledigaeth newydd</b> Cyflwyniad y Cyfarwyddwr Cyffredinol	14
<b>Perfformiad creadigol</b> Perfformiad AOCC yn 2003-04	18
<b>Meddylfryd gwreiddiol</b> Sut cefnogodd AOCC agenda Llywodraeth y Cynulliad	20
<b>Rhaglenni creadigol</b> Safleoedd a gweithgareddau AOCC	27
<b>Creu'r dyfodol</b> Math newydd o amgueddfa ar gyfer Abertawe a Chymru	66
<b>Creu cysylltiadau</b> Gweithio gyda Chymru, y DU a'r byd	70
<b>Safonau gwreiddiol</b> Gwasanaethau canolog yn AOCC	72
<b>Buddsoddi mewn creadigrwydd</b> Crynodeb o Adroddiad Ariannol AOCC	85
<b>Llys a Chyngor AOCC</b> Aelodaeth	92/93

# Contents

<b>Funding creativity</b> NMGW's generous supporters
<b>Our origins</b> NMGW's original ideals, aims and objectives
<b>Creative talents</b> President's foreword
<b>Creating a new vision</b> Director General's introduction
<b>Creative performance</b> How NMGW performed
<b>Original thinking</b> How NMGW supported the Assembly Government agenda
<b>Creative programmes</b> NMGW's sites and activities
<b>Creating the future</b> A new kind of museum for Swansea and Wales
<b>Creating alliances</b> Working with Wales, the UK and the world
<b>Original standards</b> Central services at NMGW
<b>Investing in creativity</b> A summary of NMGW's Financial Report
<b>NMGW's Court &amp; Council</b> Membership

# Ariannu creadigrwydd

## Noddwyr hael AOCC

Hoffai'r Llywydd a'r Cyngor ddiolch i'r canlynol, a'r cyfranwyr eraill sydd am aros yn ddiennw, am gefnogi Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru yn hael rhwng 1 Ebrill 2003 a 31 Mawrth 2004.

### Noddwyr Corfforaethol

Celf a Busnes Cymru  
Axa Art  
Barclays  
Flight International  
Legal & General

### Ymddiriedolaethau, Sefydliadau a chefnogwyr mawr eraill

Rhodd ddiennw  
Sefydliad yr Iwerydd  
Cyngor Sir Caerdydd (drwy'r Cynllun Credydau Trethi Tirlenwi)  
Ymddiriedolaeth Elusenol Colwinston  
Ymddiriedolaeth Derek Williams  
Cyfeillion AOCC  
Ymddiriedolaeth Elusenol G.C.Gibson  
Cronfa Dreftadaeth y Loteri  
Sefydliad Lloyds TSB  
Ymddiriedolaeth Llysdinam  
Ymddiriedolaeth Elusenol Mary Homfray  
Y Gronfa Casgliadau Celf Genedlaethol  
Ymddiriedolaeth Oakdale  
Ymddiriedolaeth Pilgrim  
Ymddiriedolaeth Elusenol SR a PH Southall  
Ymddiriedolaeth Elusenol Thaw  
Ymddiriedolaeth Elusenol Trusthouse

### Cyfranwyr Unigol roddodd dros £250

4 rhoddwr diennw  
Mr a Mrs D. H. Andrews  
Tra Anrh. Ardalydd Môn  
Mrs E. M. Austin  
Leslie a Marian Beckett  
David a Carole Burnett  
Dan Clayton-Jones Ysw.  
Mrs Valerie Courage

Geraint Talfan Davies  
Walter a Shael Dickie  
G. ac E. Elias  
D. T. Glan Evans  
Lewis J. Evans  
Miss Marion Evans  
Mrs Christine Eynon  
G. Wyn Howells  
Roger a Kathy Farrance  
Mr David Fine  
Michael Griffiths  
Yr Athro a Mrs Luke Herrmann  
William Howells  
David Watson James OBE  
Jane Jenkins  
Miss K. P. Kernick  
Y Gwir Anrh. Neil Kinnock  
Dafydd Bowen Lewis  
Gerry a Pat Long  
L. Hefin Looker  
Paul a Lynne Loveluck  
Howard Moore  
John a Doreen Morgan  
Mr a Mrs John Gordon Phillips  
Michael a Siân Phipps  
Christopher L. Pollard OBE  
Malcolm a Monica Porter  
Mathew ac Angela Prichard  
Arglwydd Rhaglan  
Dr Colin J. Richards  
John Roberts  
Colin a Patricia Rowland  
Mrs Rosemary Ryland  
Mike a Mary Salter  
Richard a Gaynor Smart  
Dr P. M. Smith  
Jaci Stephen  
Mrs Joan Taylor

John Foster Thomas  
Roger G. Thomas  
Ken a Fran Truman  
David a Christine Vokes  
Mrs Meriel Watkins  
Richard N. Weston  
Drs D. M. J. a M. V. Williams  
Ruth a Gareth Williams  
Dr W. B. Willott  
Derek Woolley  
Dr Hilary Lloyd Yewlett

### Cyfranwyr Unigol roddodd dros £1,000

1 rhoddwr diennw  
Christopher Gridley  
Huw Lloyd  
Gwir Anrh. Iarll Plymouth

### Noddwyr Oes

Capt. Norman Lloyd Edwards  
Enid Child  
Nigel a Jane Gibbs  
Christopher Gridley Ysw.  
Mrs Joan Gridley  
Mr Wynford Evans  
Drs Peter a Margaret Elmes  
R. Paul Russell  
Dr Margaret Berwyn Jones  
Anna Southall  
Mr a Mrs R. A. Forster

### Er cof am Noddwyr AOCC a fu farw eleni

Mr Gerald Coleman  
Dr Peter Elmes  
Syr John Gray

I holi sut gallwch chi gefnogi gwaith AOCC, ffoniwch y Pennaeth Datblygu ar 44 (0)29 20573184.

# Funding creativity

## NMGW's generous supporters

The President and Council would like to thank the following, and those who wish to remain anonymous, for their generous support of the National Museums & Galleries of Wales in the period from 1 April 2003 to 31 March 2004.

### Corporate Sponsors

Arts & Business Cymru  
Axa Art  
Barclays  
Flight International  
Legal & General

### Trusts, Foundations and other major supporters

Anonymous donation  
Atlantic Foundation  
Cardiff County Council (through the Landfill Tax Credit Scheme)  
Colwinston Charitable Trust  
Derek Williams Trust  
Friends of NMGW  
G.C.Gibson Charitable Trust  
Heritage Lottery Fund  
Lloyds TSB Foundation  
Llysdinam Trust  
Mary Homfray Charitable Trust  
National Art Collections Fund  
Oakdale Trust  
Pilgrim Trust  
SR & PH Southall Charitable Trust  
Thaw Charitable Trust  
Trusthouse Charitable Foundation

### Individual Donors giving in excess of £250

4 anonymous donors  
Mr and Mrs D. H. Andrews  
The Most Hon. the Marquess of Anglesey  
Mrs E. M. Austin  
Leslie and Marian Beckett  
David and Carole Burnett  
Dan Clayton-Jones Esq.  
Mrs Valerie Courage

Geraint Talfan Davies  
Walter and Shael Dickie  
G. and E. Elias  
D. T. Glan Evans  
Lewis J. Evans  
Miss Marion Evans  
Mrs Christine Eynon  
G. Wyn Howells  
Roger and Kathy Farrance  
Mr David Fine  
Michael Griffiths  
Professor and Mrs Luke Herrmann  
William Howells  
David Watson James OBE  
Jane Jenkins  
Miss K. P. Kernick  
The Rt Hon. Neil Kinnock  
Dafydd Bowen Lewis  
Gerry and Pat Long  
L. Hefin Looker  
Paul and Lynne Loveluck  
Howard Moore  
John and Doreen Morgan  
Mr and Mrs John Gordon Phillips  
Michael and Siân Phipps  
Christopher L. Pollard OBE  
Malcolm and Monica Porter  
Mathew and Angela Prichard  
Lord Raglan  
Dr Colin J. Richards  
John Roberts  
Colin and Patricia Rowland  
Mrs Rosemary Ryland  
Mike and Mary Salter  
Richard and Gaynor Smart  
Dr P. M. Smith  
Jaci Stephen  
Mrs Joan Taylor

John Foster Thomas  
Roger G. Thomas  
Ken and Fran Truman  
David and Christine Vokes  
Mrs Meriel Watkins  
Richard N. Weston  
Drs D. M. J. and M. V. Williams  
Ruth and Gareth Williams  
Dr W. B. Willott  
Derek Woolley  
Dr Hilary Lloyd Yewlett

### Individual Donors giving in excess of £1,000

1 anonymous donor  
Christopher Gridley  
Huw Lloyd  
The Rt Hon. the Earl of Plymouth

### Life Patrons

Capt. Norman Lloyd Edwards  
Enid Child  
Nigel and Jane Gibbs  
Christopher Gridley Esq.  
Mrs Joan Gridley  
Mr Wynford Evans  
Drs Peter and Margaret Elmes  
R. Paul Russell  
Dr Margaret Berwyn Jones  
Anna Southall  
Mr and Mrs R. A. Forster

### In Memory of the NMGW Patrons who sadly passed away this year

Mr Gerald Coleman  
Dr Peter Elmes  
Sir John Gray

To find out how you can support NMGW, please contact the Head of Development on 44 (0)29 20573184.

# Ein gwreiddiau

## Delfrydau, nodau ac amcanion gwreiddiol AOCC

**‘Mae ei weithgareddau craidd yn cynnwys datblygu ei gasgliadau, gofalu amdany nhw, eu hastudio a’i gwneud yn hawdd i bobl fynd atyn nhw er budd y gymdeithas, a hynny am byth.’**

Cafodd Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru (AOCC) ei sefydlu drwy Siarter Brenhinol fel Amgueddfa Genedlaethol Cymru ym 1907. Mae AOCC yn elusen gofrestredig annibynnol, ac fel Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad caiff ei ariannu'n bennaf drwy gymhorthdal grant gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae ei weithgareddau craidd yn cynnwys datblygu ei gasgliadau, gofalu amdany nhw, eu hastudio a'i gwneud yn hawdd i bobl fynd atyn nhw er budd y gymdeithas, a hynny am byth. Mae'r Siarter (1907, diwygiwyd 1991) yn nodi y dylid cyflawni hyn:

*yn bennaf drwy ddarlunio'n llwyr ddaeareg, mwynoleg, swôleg, botaneg, ethnograffeg, archaeoleg, celfyddyd, hanes a diwydiannau arbennig Cymru trwy gasglu, diogelu, egluro a chyflwyno pob gwrthrych a pheth.*

Dyma nodau AOCC ar hyn o bryd:

- Hybu dealltwriaeth a gwybodaeth eang am dreftadaeth a diwylliant Cymru a'i rôl yn natblygiad a hanes y byd.
- Rhoi gwasanaeth amgueddfa genedlaethol i Gymru sy'n ganolfan ragoriaeth ryngwladol. Gofalu am ein casgliadau cynyddol o fri a phwys cenedlaethol a rhyngwladol yn y ffordd orau bosibl.
- Trwy ein casgliadau a'n harbenigaeth, annog pobl i ymchwilio, astudio a gwerthfawrogi'r celfyddydau, y dyniaethau, y gwyddorau a thechnoleg.
- Ysbrydoli cynulleidfa sy'n tyfu o hyd i ymweld â'n hamgueddfeydd rhagorol ac elwa ar eu hadnoddau a'u cyfleusterau amrywiol.
- Datblygu ein holl adnoddau mewn ffordd ddoeth, a'u defnyddio mewn ffordd greadigol ac effeithiol, gan fod yn ddarvoudus a sicrhau ein bod ni'n cael gwerth ein harian.

Yn ystod 2003-04, roedd AOCC yn cynnal amgueddfeydd ar chwe safle ledled Cymru yn uniongyrchol:

Yr Amgueddfa ac Oriol Genedlaethol, Parc Cathays, Caerdydd  
Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd  
Amgueddfa'r Lleng Rufeinig, Caerllion, Casnewydd  
Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis, Gwynedd  
Yr Amgueddfa Wlân Genedlaethol, Dre-fach Felindre, Sir Gaerfyrddin  
Pwll Mawr: Amgueddfa Lofaol Genedlaethol Cymru, Blaenafon, Torfaen

At hynny, rydyn ni wrthi'n datblygu trefniadau partneriaeth i reoli dau safle arall:

Amgueddfa Rufeinig Segontium, Caernarfon, Gwynedd  
Oriol Tŷ Turner, Penarth, Bro Morgannwg



# Our origins

## NMGW's original ideals, aims and objectives

What is today known as the National Museums & Galleries of Wales (NMGW) was established by Royal Charter in 1907 as the National Museum of Wales. An independent registered charity, NMGW receives its core funding through grant-in-aid from the Welsh Assembly Government as an Assembly Sponsored Public Body. Its core activities involve developing, caring for, studying and sustaining access to its collections for the benefit of society in perpetuity. The Charter (1907, revised 1991) states that this is to be achieved:

*primarily by the complete illustration of the geology, mineralogy, zoology, botany, ethnography, archaeology, art, history and special industries of Wales by collection, conservation, elucidation, presentation and publication of objects and things.*

The current aims of NMGW are:

- To promote a wide understanding and knowledge of Wales's heritage, culture and role in world development and history.
- To provide Wales with a national museum service that is an international centre of excellence, ensuring the best possible care for our continually expanding collections of national and international renown and importance.
- To encourage research, study and appreciation of the arts, humanities, sciences and technology, through our collections and expertise.
- To inspire an ever-widening audience to visit and enjoy our excellent museums and benefit from their diverse resources and facilities.
- To develop wisely and use creatively and effectively all our resources, ensuring maximum efficiency and value for money.

During 2003-04 NMGW directly operated museums in six locations across Wales:

The National Museum & Gallery, Cathays Park, Cardiff  
The Museum of Welsh Life, St Fagans, Cardiff  
The Roman Legionary Museum, Caerleon, Newport  
The Welsh Slate Museum, Llanberis, Gwynedd  
The National Woollen Museum, Dre-fach Felindre, Carmarthenshire  
Big Pit: National Mining Museum, Blaenafon, Torfaen

In addition, we are currently involved in partnership arrangements for the management of two other sites:

Segontium Roman Museum, Caernarfon, Gwynedd  
Turner House Gallery, Penarth, Vale of Glamorgan



**‘Its core activities involve developing, caring for, studying and sustaining access to its collections for the benefit of society in perpetuity.’**

# Doniau creadigol

## Rhagair y Llywydd

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r math o sefydliad creadigol ac ysbrydoledig y mae Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru am fod. Ein nod yw gwarchod a defnyddio'r casgliadau sydd yn ein gofal mewn ffyrdd sy'n tanio dychymyg ein hymwelwyr, ac sy'n berthnasol i faterion pwysig ein dydd. Mae Michael Houlihan, ein Cyfarwyddwr Cyffredinol, yn ceisio ateb cwestiwn ein perthnasedd i'r gymdeithas rydyn ni'n ei gwasanaethu drwy'r gwaith y mae e wedi ei ddechrau i bennu gweledigaeth ar gyfer ein rôl yn y dyfodol wrth i ni ddechrau ein hail ganrif yn 2007.

Mae'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon, Alun Pugh AC, wedi bod yn gefn mawr i ni ac wedi dangos diddordeb mawr yn ein holl waith. Daeth i weld llawer o'n harddangosfeydd yn ystod y flwyddyn a chael blas ar amrywiaeth ein gweithgareddau. Cawson ni gyfnod digon ansicr yn yr hydref wrth boeni faint o weithgarwch y byddai modd i ni ei fforddio. Roedden ni'n awyddus i dalu costau ein cytundeb tâl a thalu ein cyfraniadau at Gronfa Bensiwn AOCC. Fel mae Cyfrifon y flwyddyn ddiwethaf yn dangos, mae'r gronfa ar ei cholled yn yr un modd â sawl cronfa arall. Ond o dipyn i beth, cafodd yr adnoddau eu cadarnhau, fel roedd y Gweinidog wedi awgrymu, gan leihau ein pryderon ar gyfer y flwyddyn hon. Ond rydyn ni wedi dal ati i gyflawni diolch i'n creadigrwydd



Paul Loveluck  
Llywydd President

## Creative talents

### President's foreword

This report highlights the creative and inspirational organization the National Museums & Galleries of Wales aspires to be. We seek to safeguard and use the collections in our trust in ways that our visitors find illuminating, and that are relevant to matters of current concern. The issue of our ongoing relevance to the society we serve is one that Michael Houlihan, our Director General, is addressing in the work he has initiated to determine a vision for our future role as we enter our second century in 2007.

Our sponsor Minister for Culture, Welsh Language and Sport, Alun Pugh AM, has been very supportive and has shown great interest in all our work over the year, attending many of our exhibitions and seeing at first hand the range of our activities. We had a period of uncertainty last autumn, with concern about the level of activity we would be able to afford. We were particularly anxious to be in a position to meet the costs of an agreed pay settlement and our obligations to NMGW's pension fund, which, as this year's Accounts show, is in deficit like so many other funds. The resources our Minister indicated were likely to be available were subsequently confirmed, and met these concerns for this year. With the creativity we have shown in using our charitable status to access other sources of funding and in programme planning, we have been able to continue 'firing on

De: Alun Pugh AC yn Pwll Mawr:  
Yr Amgueddfa Lofaol Genedlaethol.

Right: Alun Pugh AM at Big Pit: National  
Mining Museum of Wales.



wrth ddefnyddio ein statws elusennol i fanteisio ar ffynonellau cymorth eraill a chynllunio rhaglenni. Gwaetha'r modd, mae'n bosibl y bydd rhai o'r problemau, fel y diffyg yn y Gronfa Bensiynau, yn aros gyda ni am gyfnod eto. Byddwn ni'n parhau i chwilio am atebion, ac mae Cyngor AOCC wedi nodi eisoes mai'r Gronfa Bensiynau fydd yn elwa os cawn ni unrhyw adnoddau ychwanegol oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad.

Oherwydd cyswllt ei deulu â'r diwydiant glo, rwy'n amau mai'r ymweliadau â'r Pwll Mawr: Amgueddfa Lofaol Genedlaethol Cymru roddodd y pleser mwyaf i'r Gweinidog. Cafodd ailddatblygiad y safle ei gwblhau, ac mae safon uchel y gwaith wedi denu llawer o ganmoliaeth, gan gynnwys clod yr Athro Tom Prichard, Cadeirydd Cronfa Dreftadaeth y Loteri yng Nghymru, un o brif noddwyr y datblygiadau yn ein holl amgueddfeydd diwydiannol. Cofiwch, y peth gorau am ymweliad â'r Pwll Mawr o hyd yw'r cyn-lowyr sy'n rhannu eu profiadau o fywyd yn y pwll! Cafodd ailddatblygiad yr Amgueddfa Wlân Genedlaethol ei gwblhau hefyd. Daeth y gymuned leol draw i'r safle am ragarddangosfa y noson cyn i blant yr ysgol gynradd leol orymdeithio drwy'r pentref i gael eu croesawu fel ymwelwyr ffurfiol cyntaf yr Amgueddfa. Mae'n amlwg bod y gymuned leol yn rhannu ein balchder yn y ffordd y mae stori 'Huddersfield Cymru' yn cael ei hadrodd. Yn yr un modd â'r Pwll Mawr, bydd yr Amgueddfa'n gaffaeliad mawr i'r economi twristiaeth lleol.

Yn ystod y flwyddyn, rhoddodd y Cyngor gryn sylw i'r materion llywodraethu a gododd o Adolygiad Pum-mluned Llywodraeth y Cynulliad o AOCC. Gwaetha'r modd, ni fu'n bosibl i ni wneud y cynnydd roedden ni wedi gobeithio ei wneud. Mae ein Llys wedi cytuno i gyfres o gynigion sy'n cynnwys dod o hyd i ffyrdd mwy effeithiol o ymgynghori â budd-ddeiliaid a newid cyfansoddiad y Cyngor.



Plant ysgol lleol yn dathlu ailgoriad yr Amgueddfa Wlân Genedlaethol.

all cylinders'. Some of the problems, however, like the pension fund deficit, might remain with us for some time. We will continue to seek constructive solutions, and NMGW's Council has made it clear that the priority for any additional resources we receive from the Welsh Assembly Government will be to meet our obligations to the pension fund.

I suspect that the visits that gave our Minister most pleasure, because of his family association with the mining industry, have been to Big Pit: National Mining Museum. The major redevelopment there was completed and has been commended for its high standard by many, including Professor Tom Pritchard, Chair of the Heritage Lottery Fund in Wales, which has been a major funder in the development of all our industrial museums. The best part of a visit to Big Pit, however, remains unchanged, and that is the ex-miner guides who 'tell it as it really was'! The redevelopment of the National Woollen Museum was also completed. The local community had a preview of the Museum on the evening before the children of the local primary school paraded through the village to the Museum and become the first members of the public to be formally admitted. It is clear that the local community share our pride in the way the story of 'the Huddersfield of Wales' is told and, as at Big Pit, the Museum will make an added contribution to the local tourist economy.

The Council was much concerned during the year with issues related to our governance arising out of the Assembly Government's Quinquennial Review of NMGW, but we did not make the progress anticipated. Our Court had agreed to a set of proposals involving its replacement by a more effective way to consult stakeholders and on the way in which the Council might be constituted.

Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru am i ni fynd ar drywydd y cwestiwn o dalu aelodau'r Cyngor er mwyn denu aelodau o drawsdoriaid ehangach o'r gymdeithas. Ond er mwyn symud y broses yn ei blaen, rhaid i Lywodraeth y Cynulliad gychwyn trafodaeth â'r Comisiwn Elusennau, y corff sy'n rheoleiddio statws AOCC fel elusen gofrestrdig a'r corff y mae'r Cyngor yn atebol iddo fel Bwrdd Ymddiriedolwyr. Y rheswm am hyn yw bod y mater yn codi egwyddorion pwysig o ran y gyfraith elusennau. Rydyn ni wedi cymryd camau i symleiddio ein strwythur pwyllgorau mewnol ac, yn lle'r hen system o baneli ymgynghori, wedi creu system fwy hyblyg lle mae'r Ceidwaid yn sefydlu grwpiau ar faterion penodol pan fo angen.

Daeth chwe aelod newydd i gryfhau'r Cyngor eleni sef: Jane Pierson Jones, y Cyngorydd Rhiannon Wyn Hughes, yr Athro David Egan, Huw Williams, Dr Iolo ap Gwynn a'r Athro John Last. Cafodd yr aelodau newydd eu penodi yn sgil hysbyseb agored a phroses ddethol oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o AOCC, Llywodraeth y Cynulliad ac aseswyr annibynnol. Mae'r aelodau'n ategu cryfderau presennol y Cyngor ac yn cynnig arbenigedd a phrofiad sylweddol o fyd amgueddfeydd ac orielau, addysg, gwyddoniaeth, y gyfraith a llywodraeth leol. Yn yr un modd ag aelodau presennol y Cyngor, penodiadau heb dâl yw'r rhain. Rwy'n eithriadol o ffodus i gael cefnogaeth aelodau Cyngor mor neilltuol sydd mor barod i roi o'u hamser a'u hymroddiad 'pro bono publico'. Hoffwn estyn gair arbennig o ddiolch i'm cyd-swyddogion, Dr Susan Davies, yr Is-Lywydd, a Wyn Howells, y Trysorydd.

Hoffwn roi teyrnged hefyd i'r holl unigolion a sefydliadau sydd wedi noddi'r datblygiadau newydd yn ein hamgueddfeydd a'n harddangosfeydd. Hebdynt, ni fyddai ailddatblygiad

The Assembly Government also wished to pursue the question of remuneration of Council members in the interests of encouraging applications to join Council from a wider cross-section of society. In the event, it became evident that before progress could be made it would be necessary for the Assembly Government to enter into meaningful discussion with the Charity Commission, which is the regulatory body for NMGW as a registered charity and to whom the Council as a Board of Trustees must account, about the changes it wished to see introduced, as they touch upon important principles of charity law. We have been able to make progress, however, in streamlining our own internal committee structure and replacing the former advisory panel system with a more flexible system, with the Keepers convening advisory groups for particular issues when necessary.

During the year, the Council was strengthened by the arrival of six new members: Jane Pierson Jones, County Councillor Rhiannon Wyn Hughes, Professor David Egan, Huw Williams, Dr Iolo ap Gwynn and Professor John Last. All were appointed following open advertisement and a selection procedure involving representatives of NMGW, the Welsh Assembly Government and independent assessors. They add to the existing strengths of the Council and bring considerable expertise and experience in the world of museums and galleries, education, science, law and local government. Their appointments, as is the case with existing members of Council, is without remuneration. I am extremely fortunate to be supported by Council members of such distinction, prepared to give their time and commitment 'pro bono publico'. A particular word of thanks is due also to my fellow officers, Dr Susan Davies, the Vice President, and Wyn Howells, the Treasurer.



Local school children helping celebrate the reopening of the National Woollen Museum.



y Pwll Mawr na'r Amgueddfa Wlân Genedlaethol wedi bod yn bosibl, ni fyddai Amgueddfa Genedlaethol y Glannau newydd ar y gweill yn Abertawe a byddai llawer o'n harddangosfeydd llawer tlotach. Mae ein statws fel elusen sy'n atebol i Fwrdd o Ymddiriedolwyr annibynnol wedi bod yn allweddol i'n galluogi ni i gael gafael ar yr arian yma. Roedd hi'n briodol iawn felly mai pwrpas ymweliad cyntaf EUB Tywysog Cymru ag Amgueddfa Werin Cymru yng Ngorffennaf 2003 oedd i ailagor yr Ardd Eidalaidd, project a wnaed yn bosibl diolch i haelioni ein noddwyr. Rwy'n cynnwys ein Noddwyr a'n Cyfeillion yn y diolchiadau hyn. Yn ogystal â chyfrannu'n gyson at weithgareddau cyffredinol AOCC, mae eu cyfraniad fel llysgenhadon a selogion yn hanfodol. Diolch o'r galon.

Yn olaf, ar ran y Llys a'r Cyngor, hoffwn ddiolch i Michael Houlihan a'i dîm o staff ymroddgar a brwdfrydig yn ein holl amgueddfeydd ac orielau. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r darlun mawr o'u gwaith a'u llwyddiant. Daliwch ati.

**Paul Loveluck**

*Llywydd*


I would also like to pay tribute to all those individuals and organizations who have sponsored our new museum developments and our exhibitions. Without them, there would have been no redevelopment at Big Pit or The National Woollen Museum, no new National Waterfront Museum at Swansea and many of our exhibitions would have been but pale shadows of the standards we have achieved. Our status as a charity responsible to an independent Board of Trustees has been key to our ability to access these funds. It was particularly fitting that the occasion of HRH The Prince of Wales's first visit to the Museum of Welsh Life in July 2003 was to re-open the Italian Garden, a project made possible through generous sponsorship. I include with these thanks our Patrons and Friends. Not only do they contribute consistently towards the general activities of NMGW, but their role as ambassadors and enthusiasts is crucial. Diolch o'r galon.

Finally, on behalf of the Court and Council, may I thank Michael Houlihan and his team of dedicated and enthusiastic staff in all our museums and galleries. This report shows in full measure their work and success. Long may it continue.

**Paul Loveluck**

*President*

Yr Ardd Eidalaidd yn Amgueddfa Werin Cymru.



The Italian Garden at the Museum of Welsh Life.

# Creu gweledigaeth newydd

## Cyflwyniad y Cyfarwyddwr Cyffredinol

Mae amrywiaeth ac ansawdd gweithgareddau a champau AOCC dros y flwyddyn ddiwethaf yn dangos yn glir y dylid mesur gwerth amgueddfa ar sail beth mae'n ei wneud yn hytrach na beth yw hi. Mae gan y cyhoedd – sy'n berchen ar y casgliadau wedi'r cyfan – hawl ddiwylliannol i fwynhau amgueddfeydd sy'n ddeniadol ac yn awdurdodol. Mae amgueddfeydd yn llefydd i gofio, yn llefydd i ddarganfod ac yn llefydd i ddychmygu, a'r casgliadau sydd wrth galon y profiadau hynny. Felly mae sicrhau ein bod ni'n berthnasol i'r gymdeithas yn y tymor hir yn broses barhaus o werthuso ac asesu sut byddwn ni'n defnyddio ein casgliadau.

Cychwynnodd AOCC broses gynhwysfawr i adolygu ei gyfeiriad eleni, a byddwn ni'n mynd â'r drafodaeth honno allan at gynulleidfa ehangach yn 2005. Mae ein gwaith hyd yn hyn wedi dangos y bydd y berthynas rhwng casgliadau, syniadau, gwybodaeth a phobl yn flaenllaw yn y drafodaeth honno. Er bod AOCC yn dal i greu'n gryf yn nodweddion addysg, gwasanaethau cyhoeddus a bod yn broffesiynol, mae'n cydnabod yr angen am dorri tir newydd hefyd. Mae hyn wedi ein hysgogi ni i ystyried sut gallai'r gwerthoedd hyn



Michael Houlihan  
Cyfarwyddwr Cyffredinol  
Director General

## Creating a new vision

### Director General's introduction

The range and quality of NMGW's activities and achievements over the past year clearly demonstrate that a museum's value should be judged on what it does and not on what it is. The public – who, after all, own the collections – have a cultural right to museums that are simultaneously engaging and authoritative. Museums serve as places to remember, as places to discover and as places to imagine. The collections are at the heart of those experiences. Therefore, ensuring our long-term relevance to society is a process of continuous evaluation and assessment as to how we will use our collections in the future.

This year, NMGW began a fundamental review of its direction and we will be taking that debate to a wider, external audience in 2005. Our work so far has shown that the relationship between collections, ideas, knowledge and people will be to the forefront of that discussion. Whilst NMGW retains a profound belief in the qualities of education, public service and professionalism, it also recognises the need to be innovative. This has prompted us to consider how such values might be expressed in our future public programmes and how we can become a forum for presenting issues of our time in the fields of science, history and culture.

gael eu lleisio yn ein rhaglenni i'r cyhoedd yn y dyfodol a sut gallwn ni fod yn fforwm i gyflwyno materion cyfoes ym meysydd gwyddoniaeth, hanes a diwylliant.

Trwy ei raglen arddangosfeydd, mae AOCC wedi llwyddo i ddangos sut rydyn ni'n taro cydbwysedd rhwng ein hymrwymiad i ragoriaeth ac awdurdod, â sialensiau'r byd sydd ohoni. Dangosodd *Thomas Jones: ailddarganfod artist* allu'r Adran Gelf i guradu arddangosfa o waith un o artistiaid enwocaf Cymru. Aethant ati i dynnu gweithiau o UDA, Ewrop, Rwsia a chasgliadau preifat at ei gilydd am y tro cyntaf a manteisio ar holl adnoddau amlddisgyblaeth AOCC er mwyn rhoi'r darlun cyflawn o waith yr artist. Roedd y beirniaid wrth eu boddau ami. Ar y llaw arall roedd cynnal y Wobr Artes Mundi yn yr Amgueddfa ac Oriol Genedlaethol yn fenter newydd ac yn dipyn o her. Doedden ni ddim yn siŵr ar y dechrau a fyddai'n bosibl i ni greu'r mathau o le oedd eu hangen ar gyfer y dathliad hwn o gelf gyfoes ryngwladol. Ond daethon ni i ben diolch i'n dyfeisgarwch creadigol, ac ymroddiad staff ar bob lefel. Y dystiolaeth o hynny yw ein bod ni wedi denu dros 50,000 o ymwelwyr, ac mae trafodaethau ar y gweill i gynnal y digwyddiad blaenllaw hwn yma eto yn 2006.

Fe ddysgon ni ryw Beth o gyfodol y ddwy arddangosfa bwysig hyn hefyd. Cafodd arddangosfa *Thomas Jones* nifer dda o ymwelwyr er i ni godi tâl mynediad, ond roedd y ffigur llawer yn is na'r niferoedd a ddaeth i weld *Artes Mundi* oedd yn rhad ac am ddim. Er na allwn ni fforddio diystyru unrhyw gyfle i godi referniw, fe wnawn ni bopeth yn ein gallu yn y dyfodol i ategu mynediad am ddim wrth y drws â mynediad am ddim i'n harddangosfeydd er mwyn i bawb gael yr un cyfle i'w mwynhau.

This year, through its exhibition programme, NMGW showed how we balance a commitment to excellence and authority with the challenges of the contemporary world. *Thomas Jones: an artist rediscovered* demonstrated the ability of the Art Department not simply to curate an exhibition of one of Wales's most acclaimed artists, bringing together for the first time pictures from the USA, Europe and Russia as well as private collections, but also to explore the work of the artist in a holistic way, using the multi-disciplinary resources available within NMGW as a whole. The exhibition was received with critical acclaim. Our hosting of the Artes Mundi Prize at the National Museum & Gallery was, undoubtedly, both a new departure and a challenge. It was not immediately obvious that we could create the right sort of spaces for this celebration of international contemporary art, but we were assured that our creative ingenuity, with commitment from staff at all levels, made it work. The proof: we had record attendances of over 50,000 visitors, and are discussing hosting this prestigious event again in 2006.

We also learned something from the juxtaposition of these two major exhibitions. The numbers attending the *Thomas Jones* exhibition, for which there was a charge, while good, were far lower than for *Artes Mundi*, which was free. While we cannot afford to pass up any revenue-raising possibilities, in the future we will do everything possible to back up free entry at the door with free entry to our exhibitions so that people, whatever their means, can access the displays.

Other exhibitions celebrated the centenaries of the National Art Collections Fund, which has been one of our major benefactors, and the birth of Graham Sutherland.

**'Er bod AOCC yn dal i greu'n gryf yn nodweddion addysg, gwasanaethau cyhoeddus a bod yn broffesiynol, mae'n cydnabod yr angen am dorri tir newydd hefyd.'**

**'Whilst NMGW retains a profound belief in the qualities of education, public service and professionalism, it also recognises the need to be innovative.'**

**‘Mae’r arddangosfeydd  
a’r datblygiadau  
hyn yn bosibl diolch  
i holl gwmpas y  
gweithgareddau eraill  
sy’n eu bwydo, fel  
addysg ac ymchwil. Y  
gweithgareddau hyn sy’n  
eu creu ac yn rhoi profiad  
cyflawn i’r cyhoedd.’**

Roedd yna arddangosfeydd eraill yn ystod y flwyddyn, i ddathlu canmlwyddiant y Gronfa Casgliadau Celf Genedlaethol, sef un o'n prif noddwyr, ac i ddathlu pen-blwydd Graham Sutherland. Yn ogystal â dathlu'r gweithiau gan Sutherland sydd yn ein casgliadau a'r ysbrydoliaeth a gafodd o Sir Benfro, roedd hyn yn dangos ein hymrwymiad parhaus i helpu Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro a phartneriaid eraill i greu canolfan i ddehongli celf a'r dirwedd yn sir Benfro. Byddai hyn yn rhoi cartref sefydlog i weithiau Sutherland yn y sir. Un enghraifft yn unig yw hwn o agwedd o waith AOCC sy'n datblygu er mwyn i fwy o'r casgliadau i gael eu gweld mewn amgueddfeydd ac orielau lleol. Pysurodd y rhaglen bartneriaeth Cyfoeth Cymru Gyfan yn ystod y flwyddyn, wrth i ddarnau o'r casgliadau cenedlaethol gael eu harddangos yn Amgueddfeydd Wrecsam a Brycheiniog, ac wrth i Oriol Ynys Môn gynhyrchu llyfr newydd dan adain y cynllun. At hynny, daeth dau bartner newydd i'r fei ar ffurf Amgueddfa Pont-y-pŵl ac Amgueddfeydd Sir Gaerfyrddin.

Mae ein cynlluniau i greu Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe yn ymgorffori sawl agwedd ar ein ffordd o feddwl am y dyfodol. Yn gyntaf, mae'r amgueddfa newydd bwysig hon, a fydd yn agor yn 2005, yn cael ei chreu ar sail partneriaeth gadarn â Chyngor Sir Abertawe. Yn olaf, mae'r gwaith ymchwil a dylunio yn ystod y flwyddyn wedi canolbwyntio ar ddatblygu agwedd arloesol ac arbrolfol at adrodd stori diwydiannau Cymru drwy adrodd stori'r bobl fu'n rhan ohonynt.

Mae'r arddangosfeydd a'r datblygiadau hyn yn bosibl diolch i holl gwmpas y gweithgareddau eraill sy'n eu bwydo, fel addysg ac ymchwil. Y gweithgareddau hyn sy'n eu creu ac yn rhoi profiad cyflawn i'r cyhoedd. Enghraifft dda o hyn oedd *Dan Fygythiad! Planhigion*

The latter was not only a recognition of his works in our collection and the inspiration he drew from Pembrokeshire, but also a display of our continuing commitment to helping the Pembrokeshire Coast National Park and other partners create a centre for the interpretation of art and landscape. This will enable Sutherland's work to be seen in Pembrokeshire on an ongoing basis. This is one example of the development of NMGW's work in enabling more of the collections to be seen in local museums and galleries. The partnership programme Cyfoeth Cymru Gyfan-Sharing Treasures also gathered pace during the year, with exhibitions from the national collections in Wrexham Museum and Brecknock Museum, and a new book produced by Oriol Ynys Môn. Two new partners, Pontypool Museum and Carmarthenshire Museums, were also identified.

Our plans to create the National Waterfront Museum in Swansea encapsulate many aspects of our thinking about the future. Firstly, this major new museum, which opens in 2005, is built upon a strong partnership with the City & County of Swansea. Secondly, it brings a major national collection to another part of Wales. Finally, research and design work during this year has centred upon developing an innovative and experiential approach to telling not only the story of Wales's industries, but also the story of the people.

Exhibitions and capital developments are only made possible by, and are only as good as, the range of research and learning activities that make our public programmes such a rounded experience. A good example was *Threatened! Plants and animals in danger*, which examined the threats to endangered species throughout the world. The exhibition was supported by a programme of lunch-time talks and weekend activities. Although

*ac anifeiliaid mewn perygl*, oedd yn edrych ar y bygythiadau i rywogaethau sydd mewn perygl ym mhedwar ban y byd. Cafodd yr arddangosfa ei hategu gan sgyrsiau awr ginio a gweithgareddau arbennig ar benwythnosau. Mae gan AOCC gyfraniad pwysig i'w wneud wrth warchod yr amgylchedd. Rydyn ni'n awdurdod ar dacsonomeg, mae ein casgliadau hanes natur a daeareg helaeth yn cael eu defnyddio'n eang ar gyfer gwaith ymchwil, ac mae staff ein hadrannau Bioamrywiaeth a Bywydeg Gyfundrefnol a Daeareg yn gwneud tipyn o waith i helpu'r asiantaethau cadwraeth. Mae ehangder ein diddordebau a'n harbenigedd yn golygu bod ein gwaith yn berthnasol i'r rhan fwyaf o bortffolios Gweinidogion Llywodraeth y Cynulliad, os nad pob un ohonynt, ac rydyn ni wedi cynghori'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Materion Gwledig a'r Gweinidog dros Addysg Gydol Oes.

Ar nodyn personol, 2003-2004 oedd fy mlwyddyn lawn gyntaf gydag Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru. Mae hi wedi bod yn flwyddyn hapus a boddhaus. Rydw i wedi mwynhau cefnogaeth tîm rheoli hollol broffesiynol ac wedi cael fy siomi ar yr ochr orau gan gorff o staff brwdfrydig ac ymroddgar sy'n ymfalchio'n fawr yn yr Amgueddfa: diolch i bawb.

**Michael Houlihan**  
Cyfarwyddwr Cyffredinol

it is sometimes not recognised, NMGW has an important contribution to make to the consideration of environmental sustainability. We are a recognised authority on taxonomy, our extensive natural history and geology collections are much used for research and the staff of our Biodiversity & Systematic Biology and Geology departments engage in work that supports many of the conservation agencies. The breadth of our interests and expertise makes our work relevant to most if not all the portfolios of Welsh Assembly Government Ministers, and we have given specific briefings to the Minister for Environment, Planning and Rural Affairs and the Minister for Education and Lifelong Learning.

On a personal note, 2003-2004 was my first full year with the National Museums & Galleries of Wales. It has been both happy and fulfilling. I have enjoyed the support of a thoroughly professional management team and have been greatly impressed by a staff who are enthusiastic, committed and who take genuine pride in the Museum: my thanks to everyone.

**Michael Houlihan**  
Director General

**‘Exhibitions and capital  
developments are only  
made possible by, and  
are only as good as,  
the range of research  
and learning activities  
that make our public  
programmes such a  
rounded experience.’**

# Perfformiad creadigol

## Perfformiad AOCC yn 2003-04

Yn Ebrill 2001, rhoddodd Llywodraeth y Cynulliad gyllid i ni i gyflwyno mynediad am ddim i bawb i'n holl safleoedd. Arweiniodd hyn at gynnydd aruthrol o 87.8% yn niferoedd yr ymwelwyr yn 2001-02 o'i gymharu â 2000-01. Roedd hyn yn golygu bod 1.43 miliwn o ymweliadau wedi bod â safleoedd AOCC erbyn diwedd 2001-02 o'i gymharu â rhyw 765,000 yn 2000-01.

Yn 2002-03, ail flwyddyn mynediad am ddim, cawson ni 1.25 miliwn o ymweliadau – 67% yn fwy nag yn 2000-01.

Er ei bod ychydig bach yn is na'r targed o 1.25 miliwn a bennwyd ar gyfer 2003-04, mae'r cyfanswm terfynol o 1,222,206 o ymweliadau yn dipyn o gamp. Mae'r ffigur yn dal i fod 476,971 (64%) yn uwch na niferoedd 2000-01.



# Creative performance

## How NMGW performed

In April 2001, the Welsh Assembly Government provided additional funding to enable NMGW to introduce universal free admission for all sites, resulting in a dramatic 87.8% increase in visitor numbers in 2001-02 compared to 2000-01. As a result, NMGW sites attracted over 1.43 million visits by the end of 2001-02, compared to around 765,000 during 2000-01.

During 2002-03, the second year of free entry, a total of 1.25 million visits were made – 67% more visits than in 2000-01.

Although slightly below the 1.25 million target set for 2003-04, the final total of 1,222,206 visits represents a significant achievement – the figure was still 476,971 (64%) above 2000-01.

## Nifer yr ymweliadau â safleoedd AOCC NMGW Visitor figures

	2003-04 Go iawn	Targed	Amrywiad o'r o'r targed		2002-03 Go iawn	Cynnydd/Lleihad ers 2002-03		Museum
	2003-04 Actual	Target	Variance from target		2002-03 Actual	Increase/Decrease on 2002-03		
			Nifer	%		Nifer	%	
			Number	%		Number	%	
<b>Amgueddfa</b>								
Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol	274,580	317,000	-42,420	-13.4	321,968	-47,388	-14.7	National Museum & Gallery
Amgueddfa Werin Cymru	627,138	620,000	7,138	1.2	623,529	3,609	0.6	Museum of Welsh Life
Amgueddfa'r Llang Rufeinig	65,041	63,000	2,041	3.2	65,495	-454	-0.7	Roman Legionary Museum
Yr Amgueddfa Wlân Genedlaethol	580*	7,000	-6,420	-91.7	0*	580	- *	National Woollen Museum
Amgueddfa Lechi Cymru	137,164	127,000	10,164	8.0	130,201	6,963	5.3	Welsh Slate Museum
Pwll Mawr	117,703	116,000	1,703	1.5	116,278	1,425	1.2	Big Pit
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,222,206</b>	<b>1,250,000</b>	<b>-27,794</b>	<b>-2.22</b>	<b>1,257,471</b>	<b>-35,265</b>	<b>-2.80</b>	<b>Total</b>

\* Caeodd yr Amgueddfa Wlân Genedlaethol ar 1 Mawrth 2002 ar gyfer gwaith ailddatblygu (gweler t. 52). Agorodd eto ar 31 Mawrth 2004.

\* The National Woollen Museum closed 1 March 2002 for redevelopment (see p. 52). It re-opened 31 March 2004.

## Perfformiad AOCC How NMGW performed

Dangosydd Perfformiad	Go iawn	Targed	2002-03 Go iawn	Performance Indicator
	Actual	Target	2002-03 Actual	
Nifer yr ymweliadau â holl amgueddfeydd AOCC	1,222,206	1,250,000	1,257,471	Total number of visitors to all NMGW museums
Nifer yr ymwelwyr mewn grwpiau addysg	ffurfiol formal 161,843 anffurfiol informal	209,000 155,000	205,956 158,601	Number of visitors in education related parties
% yr ymwelwyr oedd o grwpiau dan anfantais gymdeithasol	32	38	37	% of general visitors from socially disadvantaged groups
Nifer yr ymweliadau â'r wefan	719,144	610,000	541,265	Number of website visits
Nifer yr ymholiadau am y casgliad	22,873	20,000	23,334	Number of collection enquiries
Nifer y projectau ymchwil	79	65	Dangosydd newydd New indicator	Number of research projects
Nifer y bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau oddi ar y safle e.e. darlithoedd	221,814	154,000	153,184	Number of participants in off-site activities e.g. lectures
Nifer y canolfannau gafodd eitemau ar fenthyg	367	310	355	Number of venues to which loans have been made

# Meddylfryd gwreiddiol

## Sut cefnogodd AOCC agenda Llywodraeth y Cynulliad

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi nodi ei gweledigaeth ar gyfer y pedair blynedd hyn yn ei chynllun strategol *Cymru: Gwlad Well*. Mae ganddi bedwar canlyniad blaenoriaeth allweddol a dyma sut mae AOCC wedi bod yn cyfrannu at y themâu hyn:

### **'helpu mwy o bobl i gael swyddi'**

Bydd AOCC wedi creu pumdeg un o swyddi newydd mewn ardaloedd Amcan Un a gwledig drwy ailddatblygu'r Pwll Mawr a'r Amgueddfa Wlân Genedlaethol a datblygu Amgueddfa Genedlaethol y Glannau. Daw hyn â chyfanswm nifer y bobl sy'n gweithio dros AOCC mewn ardaloedd Amcan Un i 151.

### **'gwella iechyd'**

Mae datblygu amrywiaeth o weithgareddau allestyn i bobl o bob oedran a chefnidir, fel sesiynau hel atgofion i bobl hŷn, yn dangos sut mae'r celfyddydau a diwylliant yn gallu gwella iechyd a lles.

### **'datblygu cymunedau cryf a diogel'**

Mae amgueddfeydd yn galluogi pobl i fagu teimlad o berthyn ac i feddwl am faterion fel

## Original thinking

### How NMGW supported the Assembly Government agenda

The Welsh Assembly Government's vision for its current four-year term is set out in the strategic plan *Wales: A Better Country*. It has four key priority outcomes, and this is how NMGW is contributing to each theme:

### **'helping more people into jobs'**

Through the redevelopment of Big Pit and the National Woollen Museum and the development of the new National Waterfront Museum, NMGW will have created fifty-one new jobs in Objective One and rural areas. This will bring the total number of people employed by us in Objective One areas to 151.

### **'improving health'**

The development of a range of outreach activities for people of all ages and backgrounds, such as reminiscence sessions for older people, demonstrates how access to arts and culture can improve health and well-being.

### **'developing strong and safe communities'**

Museums enable people to build a sense of belonging and explore issues such as citizenship

dinasyddiaeth a hunaniaeth. Mae ein project Ar Dir Cyffredin wedi rhoi cyfle i ni feithrin perthnasau â chynulleidfaoedd ifanc oedd yn teimlo eu bod wedi eu cau allan. Mae'r project wedi helpu i fodloni anghenion lleol hefyd wrth gyflawni amrywiaeth o brojectau yn y gymuned.

### **'creu gwell swyddi a gwella sgiliau'**

Addysg yw ein pwrpas craidd. Bob blwyddyn mae dros 350,000 o bobl yn defnyddio ein hamgueddfeydd drwy raglenni addysg ffurfiol neu anffurfiol. Rydyn ni bob amser yn chwilio am ffyrdd newydd a chreadigol o ddefnyddio ein casgliadau i ddysgu'r medrau sylfaenol yn ogystal ag wrth gyflawni gweithgareddau penodol ar sail gwybodaeth.

Mae gan Lywodraeth y Cynulliad amrywiaeth o strategaethau i ategu *Cymru: Gwlad Well*. Wrth ddatblygu rhaglenni sy'n hyrwyddo cynladwyedd, cydraddoldeb a chynnwys pobl, mae gennym ni rôl bwysig i'w chwarae wrth gyfrannu at y gwaith polisi a amlinellir mewn tair dogfen yn arbennig:

### **Dysgu Byw'n Wahanol**

#### **Cymru Greadigol – Strategaeth Ddiwylliant i Gymru**

#### **Iaith Pawb – Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwieithog**

### **Dysgu Byw'n Wahanol: y datblygiadau yn 2003-04**

**'defnyddio adnoddau o raglenni Ewropeaidd gan gynnwys Amcan Un mewn ffyrdd sy'n cynnal datblygiad cynaliadwy'**

Mae ein *Strategaeth ar gyfer Diwydiant: Cymru – y Genedl Ddiwydiannol Gyntaf* yn hwyluso gwariant o £40m mewn ardaloedd Amcan Un i ddathlu datblygiad, hyrwyddo

and identities. Our On Common Ground project has allowed us to build relationships with previously excluded young audiences, and to deliver a range of community-based projects, meeting locally identified needs.

### **'creating better jobs and skills'**

Education is our core purpose: over 350,000 people use our museums as part of either formal or informal education programmes. We are continually seeking innovative and creative ways to use our collections to teach basic skills as well as delivering specific knowledge-based activities.

*Wales: A Better Country* is underpinned by a range of supporting Assembly Government strategies. Through the development of programmes that encourage sustainability, equality and inclusiveness, we have an important role to play in contributing to policy actions, as set out in three documents in particular:

### **Dysgu Byw'n Wahanol – Learning to Live Differently**

#### **Cymru Greadigol – Creative Future: A Culture Strategy for Wales**

#### **Iaith Pawb – A National Action Plan for a Bilingual Wales**

### **Dysgu Byw'n Wahanol – Learning to Live Differently: progress during 2003-04**

**'use of resources from European programmes including Objective One in ways that support sustainable development'**

Our *Strategy for Industry: Wales – the First Industrial Nation* is enabling investment of £40m in Objective One areas to celebrate development, promote genuine local partnerships

partneriaethau lleol a hybu treftadaeth ddiwylliannol Cymru. O dan y strategaeth, rydyn ni wedi cwblhau ailddatblygiad gwerth £7m yn y Pwll Mawr, gwneud gwaith ailwampio sylweddol gwerth £2.6m yn yr Amgueddfa Wlân Genedlaethol a byddwn ni'n agor Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe ar gost o £30m yn haf 2005.

### **Cymru Greadigol: y datblygiadau yn 2003-04**

#### ***'polisiau neu raglenni pendant ar gyfer addysg a phobl ifanc'***

Mae addysg wrth galon popeth a wnawn ni. Yn ogystal â gwasanaethu'r 200,000 o ymwelwyr sy'n dod i'n hamgueddfeydd mewn grwpiau addysg ffurfiol a'r 160,000 sy'n dod i achlysuron dysgu gydol oes, cymrodd 34,000 o bobl ran yn ein gweithgareddau addysg mewn canolfannau eraill, fel yr Eisteddfod Genedlaethol.

Mewn ymateb i waith ymchwil sy'n dangos mai ychydig iawn o bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed sy'n ymweld ag amgueddfeydd, aethon ni ati i ffurfio project partneriaeth gydag amgueddfeydd lleol ac asiantaethau cymunedol/addysg mewn pedair ardal yng Nghymru – Dinbych y Pysgod, Abertawe, Cwm Rhondda a Dinbych. Rhoddodd y fenter Ar Dir Cyffredin gyfle i bobl ifanc, gan gynnwys rhai o gefndiroedd difreintiedig, ymweld â safleoedd treftadaeth leol a chenedlaethol a chreu darn o waith, ar ffurf fideo neu arddangosfa, i ddenu eu cyfoedion i ymweld ag amgueddfeydd ac orielau.

#### ***'adolygu'r cyfleoedd dysgu gydol oes mewn pynciau celfyddydol drwy addysg ffurfiol a chynlluniau cymunedol'***

Er mwyn adeiladu ar lwyddiant mynediad am ddim, rydyn ni wedi gweithredu ar ganlyniadau'r gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan Ganolfan Ymchwil i Amgueddfeydd ac Orielau Prifysgol Caerlŷr oedd yn edrych ar bobl nad ydynt yn ymweld. Rydyn ni

and the industrial heritage of Wales. As part of the strategy, we have completed a £7m redevelopment of Big Pit, and the National Woollen Museum was re-opened at the end of March 2004 following a £2.6m refurbishment. The new £30m National Waterfront Museum is due to open in Swansea in summer 2005.

### **Cymru Greadigol – Creative Future: progress during 2003-04**

#### ***'declared policies or programmes for education and young people'***

Education is central to everything we do. As well as servicing the needs of the 200,000 visitors that attend our museums in formal education groups and a further 160,000 attending lifelong learning events, more than 34,000 people took part in educational activities delivered by us at non-museum venues such as the National Eisteddfod of Wales.

In response to research that has shown that most young people between the ages of 16 and 24 rarely visit museums, we initiated and completed a partnership project with local museums and community/education agencies in four areas of Wales – Tenby, Swansea, Rhondda and Denbigh. The On Common Ground initiative gave young people, including those from disadvantaged backgrounds, the opportunity to visit local and national heritage sites and to create a piece of work, such as a video or display, designed to raise the profile of museums and galleries with their peers.

#### ***'review opportunities for lifelong learning in cultural subjects through formal education and community initiatives'***

To build on the success of free entry, we have acted upon the findings of our non-visitor research commissioned from the Research Centre for Museums and Galleries, University of Leicester. We have developed a Social Inclusion Action Plan and strengthened our learning

wedi llunio Cynllun Gweithredu ar Gynhwysiant Cymdeithasol ac wedi atgyfnerthu ein rhaglenni dysgu a mynediad i fodloni anghenion penodol teuluoedd, pobl ifanc, pobl oeddrannus, lleiafrifoedd ethnig, siaradwyr Cymraeg a chymunedau llai breintiedig.

#### ***'adolygu'r posibilrwydd o ddarparu amrywiaeth mwy eang o orielau o safon ledled Cymru gan gynnwys Oriol Celfyddyd Gyfoes, gan gymryd i ystyriaeth adolygiadau AOCC a Chyngor y Celfyddydau o'r orielau'***

Mewn ymgynghoriad â Chyngor y Celfyddydau, rydyn ni wedi gosod y blaenoriaethau canlynol wrth bwysu a mesur y posibilrwydd o greu oriel genedlaethol o gelf gyfoes ac oriel genedlaethol newydd o gelf Gymreig:

- datblygu rhwydwaith o bartneriaid i'r oriel genedlaethol ochr yn ochr ag amgueddfeydd peilot llwyddiannus y cynllun partneriaeth Cyfoeth Cymru Gyfan
- creu oriel genedlaethol ar-lein
- datblygu dulliau hyblyg o gyflwyno celfyddyd Gymreig mewn cyd-destun rhyngwladol
- dechrau astudiaethau i bwysu a mesur y materion penodol a gododd o'r broses ymgynghori ar sail y ddogfen *Golygon y Dyfodol*.

#### ***'datblygu polisiau ymarferol ynglŷn â chelfyddyd gyhoeddus'***

Mae Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn cynnwys strategaeth celf gyhoeddus a ddatblygwyd ar y cyd â Chywaith Cymru.

#### ***'adolygu'r dewisiadau ar gyfer creu canolfan un-stop i roi gorolwg o hanes Cymru'***

Mae'r cysyniad yn cael ei ddatblygu yn rhan o broses y Weledigaeth a ddechreuodd ym mis Medi 2003. Bydd ein gwaith yn sail i'r Pyrrh Diwylliannol sy'n cael eu datblygu gan y Bwrdd Croeso yn rhan o'r Strategaeth Twristiaeth Ddiwylliannol genedlaethol.

and access programmes to address the specific needs of families, young people, older people, ethnic minorities, Welsh speakers and communities with limited resources.

#### ***'review feasibility for a wider range of quality gallery spaces across Wales including a Wales Gallery of Contemporary Art, taking into account the NMGW and Arts Council of Wales reviews of galleries'***

In consultation with the Arts Council of Wales, we set the following as priorities to test the feasibility of both a national gallery of contemporary art and a new national gallery of Welsh Art:

- developing a network of national gallery partners alongside the successful pilot museum venues in our partnership initiative Cyfoeth Cymru Gyfan-Sharing Treasures
- creating an on-line national gallery
- developing flexible approaches to the presentation of the art of Wales in an international context
- initiating feasibility studies on specific issues identified during the consultation process based on the consultation document *Views of the Future*.

#### ***'develop active public art policies'***

The new £30m National Waterfront Museum incorporates a public art strategy developed in conjunction with Cywaith Cymru.

#### ***'review the options for providing a one-stop venue for an overview of Welsh history'***

The concept is being developed as part of our Vision process initiated in September 2003. The work being undertaken by us will also underpin the Cultural Gateways being developed by the Wales Tourist Board as part of the national Cultural Tourism Strategy.

### **'datblygu Strategaeth Twristiaeth Ddiwylliannol'**

Er mwyn helpu i gryfhau economi Cymru, rydyn ni wedi bod yn chwarae rhan allweddol mewn dwy fenter bwysig i sefydlu Cymru fel cyrchfan i dwristiaid rhyngwladol sef: Menter Herian a Strategaeth Twristiaeth Ddiwylliannol y Bwrdd Croeso.

Menter adfywio ar sail treftadaeth ddiwylliannol yw Herian (Treftadaeth ar Waith). Partneriaeth eang o awdurdodau lleol y de, cyrff cyhoeddus cenedlaethol, sefydliadau gwirfoddol a'r sector preifat sy'n cynnal y fenter. Gwelwyd ffrwyth y gwariant mwyaf ar y fenter hon hyd yn hyn wrth i ni ailagor y Pwll Mawr yn Chwefror 2004 yn dilyn rhaglen fuddsoddi gwerth £7m.

Wrth ddatblygu pyrth twristiaeth ddiwylliannol ac 'arwyddbyst', bu i ni gydweithio'n agos â'r Bwrdd Croeso er mwyn sicrhau bod ei Strategaeth Twristiaeth Ddiwylliannol yn creu cyfleoedd i ledaenu manteision mynediad am ddim i'n hamgueddfeydd ac orielau i'r diwydiant twristiaeth ehangach yng Nghymru.

### **'mynediad am ddim i amgueddfeydd'**

Yn 2003-04, sef trydedd flwyddyn y polisi mynediad am ddim, daeth dros 1.2m o ymwelwyr i'n hamgueddfeydd. Roedd hyn 64% yn uwch na chyfanswm 2000-01, sef y flwyddyn olaf o godi tâl.

### **'hybu amrywiaeth diwylliannol'**

Mae'r rhan fwyaf o gymunedau lleiafrifol ethnig Cymru yn byw yng nghyffiniau Abertawe, Caerdydd a Chasnewydd. Mae staff addysg a digwyddiadau'r Amgueddfa ac Oriol Genedlaethol a'r Amgueddfa Werin yn dal i weithio gyda Mewn Cymru – Rhwydwaith y Menywod Lleiafrifol Ethnig, CADMAD (Datblygu Celfyddydau Amlddiwylliannol Caerdydd a'r

### **'develop a Cultural Tourism Strategy'**

As part of our contribution towards strengthening the Welsh economy, we played a key part in two major initiatives to establish Wales as an international cultural tourism destination: the Herian Initiative and the Wales Tourist Board's Cultural Tourism Strategy.

The Herian (Heritage in Action) Initiative is a cultural heritage-focused economic regeneration initiative backed by a broad partnership of south Wales local authorities, national public bodies, voluntary organizations and the private sector. The most significant investment in this initiative to date was delivered with the re-opening of Big Pit in February 2004 following the completion of a £7m investment programme.

Through development of cultural tourism gateways and 'signposting', we worked closely with the Wales Tourist Board to ensure its Cultural Tourism Strategy created opportunities to spread the benefits of free entry at our museums and galleries to the wider tourism industry in Wales.

### **'free entry to museums'**

During 2003-04, the third year of the free entry policy, over 1.2m visits were made to our museums, 64% above the total for 2000-01, the last year of charging.

### **'promoting cultural diversity'**

Most of Wales's ethnic minority communities are concentrated in and around the Swansea, Cardiff and Newport areas. Education and events staff based at the National Museum & Gallery and the Museum of Welsh Life continued to work with Mewn Cymru Ethnic Minority Women's Network, CADMAD (Cardiff and District Multi Cultural Arts Development), SWICA (South Wales Inter-Cultural Arts) and other community groups.

Cylch), SWICA (Celfyddydau Rhyng-ddiwylliannol De Cymru) a grwpiau cymunedol eraill.

Rydyn ni wedi datblygu nifer o weithgareddau i gynnwys cymunedau ethnig amrywiol Cymru ac i ddatlu eu diwylliannau. Mae hyn yn cynnwys Gŵyl Cymru a'r Byd ym mis Mai 2003, Mis Hanes y Bobl Dduon yn Hydref 2003 a'r arddangosfa o decstilau o dalaith Gwjarat, *Drych, Glain ac Edau*.

### **laith Pawb: y datblygiadau yn 2003-04**

#### **'prif-ffrydio'r Gymraeg'**

Rydyn ni wedi datblygu Strategaeth Sgiliau Cyfathrebu i adeiladu ar lwyddiant ein Cynllun laith. Bydd hyn yn galluogi AOCC i fod yn ganolfan rhagoriaeth ar gyfer gwasanaethau dwyieithog wyneb yn wyneb.

Fel rhan o'r broses o ddrafftio ein Strategaeth Prif-ffrydio ar gyfer 2004-05 a'r tu hwnt, rydyn ni eisoes wedi adolygu ein Cynllun laith a'n Strategaeth Sgiliau Cyfathrebu i adlewyrchu dyheadau laith Pawb a disgwyliadau Llywodraeth y Cynulliad.

Ond mae goblygiadau i brif-ffrydio'r Gymraeg sy'n mynd y tu hwnt i'n rôl o gyflwyno gwasanaethau i'r cyhoedd o dan ein Cynllun laith a'n Strategaeth Sgiliau Cyfathrebu.

Byddwn ni'n ystyried y Gymraeg ym mhob rhan o'n gwaith ac ym mhopeth a wnawn ni, gyda'r nod o sicrhau ein bod ni'n manteisio ar bob cyfle i:

- hybu a chefnogi'r Gymraeg a lles siaradwyr Gymraeg
- cyfrannu at weledigaeth Llywodraeth y Cynulliad o greu Cymru ddwyieithog.

We have developed a number of events to engage with and reflect the diverse ethnic communities of Wales, including the Wales and the World Festival in May 2003, Black History Month in October 2003 and the *Mirror, Bead and Thread* exhibition of Gujarati textiles.

### **laith Pawb: progress during 2003-04**

#### **'mainstreaming the Welsh language'**

In order to build on the success of our Welsh Language Scheme, we have developed a Communications Skills Strategy to enable NMGW to become a centre of excellence for proactive face-to-face bilingual service provision.

As part of the process of preparing our draft Welsh Language Mainstreaming Strategy for 2004-05 and beyond, we have already conducted a thorough review of our existing Welsh Language Scheme and Communications Skills Strategy to reflect the aspirations of laith Pawb and the expectations of the Welsh Assembly Government.

Mainstreaming the Welsh language, however, has major implications for NMGW that go beyond our direct public service delivery role covered by our Welsh Language Scheme and Communications Skills Strategy.

We will consider the Welsh language in all aspects of our work and in everything that we do, with the aim of ensuring that every opportunity is taken to:

- promote and support the Welsh language and the welfare of Welsh speakers
- contribute to the Assembly Government's vision of a bilingual Wales.

Bydd polisiâu AOCC ym meysydd cyfeiriad deallusol, themâu casgliadau, arddangosfeydd a digwyddiadau, a phortreadu Cymru i bobl eraill yn nodweddion amlwg hefyd. Mae ein rôl wrth gyflwyno'r casgliadau cenedlaethol a llwyfannu arddangosfeydd sy'n dangos ochr ieithyddol ein treftadaeth a'n diwylliant yn golygu bod Prif-frydio'r Gymraeg yn rhoi dyletswyddau a chyfleoedd unigryw i ni.

#### **'twristiaeth'**

Cafodd yr Amgueddfa Werin ei henwi fel esiampl o arfer dda yn arolwg Bwrdd yr Iaith Gymraeg o wasanaethau Cymraeg mewn atyniadau cyhoeddus yn y sectorau twristiaeth, hamdden, y celfyddydau a threftadaeth yng Nghymru.

#### **'rhaglen hyfforddi ar gyfer tiwtoriaid Cymraeg'**

Rhododd ELWa, asiantaeth Llywodraeth y Cynulliad dros addysg a hyfforddiant i bobl dros 16 oed, arian i ni i ddatblygu pecyn ar y we ar gyfer tiwtoriaid Cymraeg i oedolion ar sail yr Amgueddfa Werin. Mae'r pecyn yn galluogi'r dysgwyr i ddsygu am hanes a diwylliant Cymru wrth wella eu sgiliau iaith.

NMGW's policy in the areas of intellectual direction, themes for collections, exhibitions and events and portraying Wales to others will also feature strongly. It is our role in presenting national collections, displays and exhibitions reflecting the linguistic dimension of the heritage and culture of Wales that gives us unique responsibilities and opportunities in terms of Mainstreaming the Welsh language


#### **'tourism'**

In the Welsh Language Board's Survey of Welsh medium services in public attractions in the tourism, leisure, arts and heritage sectors in Wales, the Museum of Welsh Life was cited as an example of good practice.

#### **'training programme for Welsh language tutors'**

We received funding from ELWa, the Assembly Government's agency for post-sixteen education and training, to develop a web-based pack using the Museum of Welsh Life as a resource for tutors teaching Welsh to adult learners, enabling them to learn about history and culture whilst improving language skills.

# Rhaglenni creadigol Safleoedd a gweithgareddau AOCC



## Creative programmes NMGW's sites and activities

## Yr Amgueddfa ac Oriol Genedlaethol

Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NP

Ymweliadau yn 2002-03: 321,968

Ymweliadau yn 2003-04: 274,580

Targed 2004-05: 281,000

Mae'r Amgueddfa ac Oriol Genedlaethol yn unigryw ymhlith amgueddfeydd cenedlaethol y DU oherwydd ei hamrywiaeth o arddangosfeydd o fyd y celfyddydau a gwyddoniaeth. Mae'r adeilad hwn yn gartref i'r Oriol Gelf Genedlaethol ochr yn ochr ag adrannau curadurol eraill o bwys rhyngwladol ym meysydd **Archaeoleg a Niwmismateg**, **Daearreg a Bioamrywiaeth a Bywydeg Gyfundrefnol**.

### Celf

Prif ffocws yr Adran Gelf yn 2003-04 oedd yr arddangosfa fawreddog *Thomas Jones: ailddarganfod artist*, a fu yma rhwng 21 Mai a 10 Awst. Aeth yr arddangosfa ymlaen i Oriol Gelf Whitworth, Manceinion, cyn i fersiwn lai ohoni, *Thomas Jones in Italy*, ymddangos yn yr Oriol Genedlaethol yn Llundain gan ddenu 87,668 o ymwelwyr. Cymrodd yr arddangosfa ddwy flynedd i'w pharatoi ac fel ffrwyth gwaith ymchwil estynedig, llwyddodd i roi darlun cyflawn o fywyd a gwaith un o arlunwyr gorau Cymru. Roedd ei chatalog, sydd wedi cael ei ailargraffu'n barod, yn llwyddiant ysgubol. Fe'i gosodwyd ar restr fer Gwobr Art Newspaper/Catalog Arddangosfa Gelf Axa. Cafodd



## National Museum & Gallery

Cathays Park, Cardiff, CF10 3NP

Visits in 2002-03: 321,968

Visits in 2003-04: 274,580

Target 2004-05: 281,000

The National Museum & Gallery is unique amongst national museums in the UK in its range of arts and science displays. It houses the National Art Gallery alongside other internationally renowned departments of **Archaeology & Numismatics**, **Geology** and **Biodiversity & Systematic Biology**.

### Art

The Art Department's main focus in 2003-04 was the exhibition *Thomas Jones: an artist rediscovered*, which ran from 21 May to 10 August. The exhibition toured to the Whitworth Art Gallery, Manchester. A smaller version of the exhibition, titled *Thomas Jones in Italy*, was then shown at the National Gallery in London, where it was seen by 87,668 visitors. Two years in preparation, this exhibition was the product of sustained research and presented a complete overview of one of Wales's greatest artists. Its catalogue was a runaway success, and was shortlisted for the W. P. Berger Art Book Prize and the Art Newspaper/AXA Art Exhibition Catalogue Award, and has already been reprinted. The exhibition was sponsored by Axa Art and supported by Rocco

*'A truly wonderful experience. The Museum is so vibrant, colourful, exciting and full of life. I love it!'*

Visitor's comment

yr arddangosfa ei noddi gan Axa Art a chafodd gefnogaeth gan Westai Rocco Forte, Celf a Busnes Cymru a Chyfeillion AOCC. Cafodd y catalog gymorth hael gan Ganolfan Astudiaethau Celf Brydeinig Paul Mellon.

At hynny, bu'r staff cadwraeth a churadurol wrthi'n ymchwilio i dechnegau Augustus a Gwen John. Mae gwaith y ddau yn dominyddu casgliad AOCC o weithiau celf o'r ugeinfed ganrif gynnar. Roedd gweithiau Gwen John yn amlwg ymhlith y gweithiau a ddaeth i feddiant yn 2003-04 hefyd. Roedd y rhain yn cynnwys *Y Ddol Japaneaidd*, a beintiodd tua 1928, a darn llai, *Yr Ystafell Fach*, gafodd ei arddangos yn unig arddangosfa lwyddiannus yr artist yn Llundain ym 1926 ac yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Abergwaun ddeng mlynedd yn ddiweddarach. Prynwyd y cyntaf gyda chefnogaeth y Gronfa Casgliadau Celf Genedlaethol ac elusen o Gaerdydd, Ymddiriedolaeth Derek Williams. Roedd *Yr Ystafell Fach* yn rhan

Thomas Jones, *Adeiladau yn Napoli*, 1782.



Forte Hotels, Arts & Business Cymru and the Friends of NMGW. The catalogue was generously supported by the Paul Mellon Centre for Studies in British Art.

Thomas Jones, *Buildings in Naples*, 1782.

Conservation and curatorial staff also undertook research on the working methods of Augustus and Gwen John, whose work dominates NMGW's early twentieth-century art collections. Gwen John figured prominently among the acquisitions made during 2003-04. These included *The Japanese Doll*, painted around 1928, and a smaller painting, *The Little Interior*, shown in the artist's one successful London exhibition in 1926 and at the National Eisteddfod in Fishguard ten years later. The first was purchased with the support of the Cardiff-based charity the Derek Williams Trust and the National Art Collections Fund. *The Little Interior* was part of a generous bequest of some forty paintings and watercolours by twentieth-century Welsh artists made by the late Gaynor Cemlyn-Jones of Menai Bridge.

o gymynrodd hael y diweddar Gaynor Cemlyn-Jones o Borthaethwy oedd yn cynnwys rhyw ddeugain o beintiadau a gweithiau dyfrlliw gan arlunwyr Cymreig yr ugeinfed ganrif.

Diolch i gymorth llu o gyfranwyr, cafwyd diwedd glo llwyddiannus i ymgyrch hir AOCC, yr Oriol Bortreadau Genedlaethol ac Amgueddfa Capten Cook i gael portread grŵp William Parry *Omai*, *Joseph Banks a Dr Solander*. Ychwanegwyd at y casgliad hefyd wrth gaffael cerflun efydd gwych John Evan Thomas o farwolaeth Tewdrig Mawr wrth drechu'r Sacsoniaid. Cafodd y darn ei arddangos yn yr Academi Frenhinol ym 1849 ac yn Arddangosfa Fawr 1851.

William Parry, *Omai*, *Joseph Banks a Dr Solander*, tua 1775-6.



William Parry, *Omai*, *Joseph Banks and Dr Solander*, c. 1775-6.

NMGW's long-running campaign to acquire William Parry's group portrait *Omai*, *Joseph Banks and Dr Solander* with the National Portrait Gallery and the Captain Cook Museum was brought to a successful conclusion, with the help of a number of generous individual donors. Also added to the collection was John Evan Thomas's great bronze sculptural group of the death of Tewdrig Mawr at the moment of victory over the Saxons, which was shown at the Royal Academy in 1849 and at the Great Exhibition of 1851.

### Archaeoleg a Niwmismateg

Un o brif nodau AOCC yw cyfoethogi'r casgliadau cenedlaethol, ac yn 2003-04 daeth nifer o ddarganfyddiadau archaeolegol a niwmistmatig arwyddocaol i'n meddiant. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Sêl-fodrwy aur anferth (19.51g) o'r bedwaredd ganrif ar ddeg wedi'i engrafu â monogram coronog M ac I, sef llythrennau blaen y perchennog yn ôl pob tebyg (isod). Mae'r fodrwy wedi cael ei chysylltu'n draddodiadol ag Abaty Llanegwestl.
- Celc syfrdanol o geiniogau arian (de). Ffeindiwyd y rhain ger y Fenni hefyd, ac fe'u prynwyd o dan y Ddeddf Drysor. Mae'n debyg i'r celc, oedd yn cynnwys 199 o geiniogau arian o gyfnod y brenhinoedd Eingl-Sacsonaidd Edward Cyffeswr (1042-66) a Wiliam Conquerwr (1066-87), gael ei gladdu neu ei golli tua 1080 OC. Dyma'r celc Normanaidd cynnar cyntaf o bwys i gael ei ganfod yng Nghymru.



### Archaeology & Numismatics

Enhancing the national collections is one of the main aims of NMGW, and during 2003-04 a number of significant archaeological and numismatic finds were acquired. They included:

- A massive fourteenth-century gold signet ring (19.51g) engraved with a crowned monogram composed of the letters M and I, presumably the owner's initials (*above*). The ring has been traditionally associated with Valle Crucis Abbey.
- A spectacular hoard of silver pennies (*right*), also found near Abergavenny, and purchased under the Treasure Act. Comprising 199 silver pennies of the Anglo-Saxon kings Edward the Confessor (1042-66) and William the Conqueror (1066-87), the hoard was buried or lost after about AD 1080, and is the first significant early Norman hoard to be recorded from Wales.

*'Profiad gwirioneddol wych.*

*Mae'r Amgueddfa mor*


*fywiog, lliwgar, cyffrous a*

*llawn bywyd. Rydw i wrth*

*fy modd arni!'*

Sylw ymwelydd





- Daeth tair eitem i feddiant fel Broc Hanesyddol: pen pib bosn biwter a rhannau o gasyn cylllell. Mae'n debyg mai broc o'r Ann Francis, a ddrylliwyd ar draeth Margam ym 1583 yw'r rhain. At hynny, cawson ni gymorth hael Cyfeillion AOCC i brynu plât piwter o ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg ag arno nod y gwneuthurwr Richard Glover o Benrhyn Sgêr.
- Cwpan efydd Rhufeinig (*chwith*). Dyma un o'r llestri Rhufeinig gorau i'w ganfod yng Nghymru erioed. Cafodd ei ddarganfod ger y Fenni, Sir Fynwy, ym mis Tachwedd 2002. Mae hi bron yn sicr iddo gael ei wneud yn yr Eidal, ac mae'n dyddio o'r ganrif gyntaf OC. Datgelodd archwiliad o'r fan lle ffeindwyd y cwpan iddo gael ei gladdu gyda llwch amlosgi, a hynny o bosibl mewn rhan o hen fynwent wrth ymyl ffordd Rufeinig.
- Celc o waith metel o ddiwedd yr Oes Efydd o Sain Nicolas, Bro Morgannwg. Dyma un o'r celciau cynhanesyddol mwyaf i gael ei ffeindio yn ne Cymru erioed. Mae'r celc, sydd ar fenthyg i AOCC, yn cynnwys arfau, bwyell ac offer.


Gofalu am y casgliadau sydd yn ein gofal yw'r flaenoriaeth fawr o hyd. Cymrodd yr Adran gamau breision eto yn 2003-04 wrth ddogfennu ac ail-becynnu 94,309 o arteffactau a cheiniogau. Erbyn hyn, mae 74.8% o gasgliad archaeolegol yr Amgueddfa ac Oriol Genedlaethol wedi ei ddogfennu ar restr eiddo neu ar lefel uwch, a 56% o gasgliad Amgueddfa'r Llang Rufeinig. Mae cofnodion cyfrifiadurol wedi cael eu creu ar gyfer 77.3% o'r ceiniogau a'r medalau sydd yn y casgliad.

Datblygwyd yr arddangosfa *Y Palas ar y Llyn: Datgelu Llyn Syfaddan y Canoloesoedd Cynnar* fel rhan o'r cynllun partneriaeth Cyfoeth Cymru Gyfan. Mae'r arddangosfa'n cynnwys arteffactau canoloesol cynnar a ddarganfuwyd gan archaeolegwyr AOCC a Phrifysgol Caerdydd ar grannog Llyn Syfaddan rhwng 1989 a 1993. Daeth Alun Pugh AC, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon, i agor yr arddangosfa yn Amgueddfa ac Oriol Gelf Brycheiniog ar 16 Mawrth.

- Three items were acquired as Historic Wreck: the end of a pewter boatswain's pipe and parts of a knife case thought to come from the Ann Francis, wrecked on Margam beach in 1583, and a late sixteenth-century pewter plate with touch mark of Richard Glover from Sker Point. The plate was purchased with a generous grant from the Friends of NMGW.
- A Roman bronze cup (*left*), one of the finest Roman vessels to have been found in Wales, discovered near Abergavenny, Monmouthshire, in November 2002. Almost certainly made in Italy, it dates to the first century AD. Investigation of the find spot revealed that the cup had been placed with a cremation burial, which may have formed part of a cemetery lying beside the Roman road.
- A Late Bronze Age metalwork hoard from St Nicholas, Vale of Glamorgan. One of the largest prehistoric hoards ever found in south Wales, it includes weapons, axes and tools, and is on loan to NMGW.

Excellent progress continued to be made on documenting the collections, with a further 94,309 artefacts and coins being documented and repackaged. At the National Museum & Gallery, 74.8% of the archaeological collection, and 56% at the Roman Legionary Museum, have now been documented to inventory level or above, while 77.3% of the coins and medals now have computerized records.

The exhibition *The Palace in the Lake: Early Medieval Llangors Revealed* was developed as part of the partnership scheme Cyfoeth Cymru Gyfan-Sharing Treasures. The display includes early medieval artefacts discovered during excavations undertaken between 1989 and 1993 by NMGW and Cardiff University on the crannog in Llangors Lake. The exhibition was opened by Alun Pugh AM, the Minister for Culture, Welsh Language and Sport, in Brecknock Museum & Art Gallery on 16 March.



### Bioamrywiaeth a Bywydeg Gyfundrefnol

Mae'r Astudiaeth o Gynefinoedd Morol Môr Hafren yn eicon o waith project yr Adran Bioamrywiaeth a Bywydeg Gyfundrefnol (*BioSyb*). Mae ei gwaith yn cyfuno ymchwil newydd, perthnasedd i faterion amgylcheddol a dealltwriaeth y cyhoedd am wyddoniaeth a phartneriaethau.

Mae Môr Hafren yn ffynhonnell cerrig mân ar gyfer y diwydiant adeiladu. Mae'r prosesau sydd ynghlwm wrth echdynnu'r cerrig mân yn bwnc llosg i'r bobl sy'n byw ar y glannau. Mae angen gwybodaeth am gyflwr ffisegol gwely'r môr i fwydo'r broses o lunio polisïau a gwneud penderfyniadau am ddatblygiad yr amgylchedd morol. Mae hyn yn cynnwys mesur morffoleg, daeareg, bioleg a gwaddodion gwely'r môr. Rhaid asesu'r rhain er mwyn sicrhau bod yr ardal yn cael ei rheoli'n strategol ac er mwyn cynnal yr amrywiaeth fiolegol. Er mwyn gofalu am yr ardal mewn ffordd gyfrifol, rhaid deall y ffordd mae'r amgylchedd morol yn gweithio, a sut mae'r môr yn ymateb i waith dyn. Mae hyn yn golygu cynnwys yr holl fudd-ddeiliaid wrth galon y gwaith o lunio polisi. Nod yr astudiaeth yw llenwi'r bylchau helaeth yn y data biolegol a daearegol sydd ar gael am Fôr Hafren a thorri tir newydd yn ein dulliau o rannu gwybodaeth gyda'r cyhoedd ar led.

Ymhlith yr ychwanegiadau pwysicaf at y casgliadau yn ystod y flwyddyn roedd enghreifftiau o chwe rhywogaeth o gennau sy'n newydd i Gymru. Staff AOCC gasglodd y cennau wrth gynnal arolwg ar ran Cyngor Cefn Gwlad Cymru, English Nature a Scottish National Heritage. Yn rhan o broiect Planhigion Prin Cymru, casglwyd samplau Llysieufa a DNA o rywogaeth *Sorbus* y Gerddinen Wen yn Iwerddon a Dyffryn Wysg. At hynny, gadawodd

### Biodiversity & Systematic Biology

An icon of the project work undertaken by the Department of Biodiversity & Systematic Biology (known as BioSyb), that combines novel research, relevance to environmental issues and public understanding of science and partnerships, is The Outer Bristol Channel Marine Habitat Study, supported by the Aggregates Levy Sustainability Fund, ODPM, MIRO, BMAPA and the Crown Estate.

The Bristol Channel is a source of aggregates for the construction industry, and their extraction is a contentious issue for the communities that live along its shores. Informing the policy and decision-making process in terms of development of the marine environment requires knowledge of its physical state. This includes the morphology, geology, biology and sediments of the seabed. Baseline information on these is essential for strategic management and the conservation of biological diversity. Responsible stewardship requires an understanding of the way the marine environment functions, and how the sea may respond to human activity. It also means involving stakeholders as an integral part of policy making. The aim of the study is to address the lack of broad-scale biological and geological data for the Outer Bristol Channel as well as providing information, through innovative media, to the public at large.

Significant additions to the collections were examples of six lichen species new to Wales, which came from survey work carried out by NMGW on behalf of the Countryside Council for Wales, English Nature and Scottish National Heritage. Herbarium and DNA samples of the Whitebeam genus *Sorbus* were acquired from Ireland and the Wye Valley as part of our Rare Welsh plants project. In addition, an especially significant bequest of

M. C. F. Proctor gasgliad arwyddocaol iawn o *Sorbus* i ni yn ei ewyllys. Roedd y casgliad yn cynnwys sbesimenau eithriadol ynghyd â chyfoeth o wybodaeth archif o astudiaethau isoensym clasurol a wnaed ddeng mlynedd yn ôl.

*Dan Fygythiad: planhigion ac anifeiliaid mewn perygl* oedd arddangosfa fawr yr Adran yn ystod y flwyddyn. Nod yr arddangosfa oedd codi ymwybyddiaeth am y ffordd y mae ein



Gwely môr tywodlyd gyda hydroidau (pinwydd môr).

Sandy seabed with hydroids (sea-firs).




Gwely môr graeanog gyda sêr môr brau. (Lluniau drwy garedigrwydd Ivor Rees)

Gravelly seabed with brittle starfish (images courtesy of Ivor Rees)

*Sorbus* was received from M. C. F. Proctor, which included voucher specimens, with much supportive archival data, for the classic isoenzyme studies of ten years ago.

*Threatened: plants and animals in danger* was the Department's major exhibition project during the year. Its aim was to raise awareness of the threats to biodiversity from our unsustainable use of resources and the damage that this causes to the environment. As a



Llun sonar amlbelydr yn dangos brigiadau o greigiau ar wely'r môr (diolch i Arolwg Daearegol Prydain).

Multibeam sonar image showing rock outcrops on seabed (courtesy of British Geological Survey).

defnydd anghynladwy o adnoddau'n bygwth bioamrywiaeth ac yn difrodi'r amgylchedd. I wrthbwysu hyn, roedd yr arddangosfa'n tynnu sylw at waith rhai o'r prif sefydliadau cadwraeth ac yn dangos sut gallwn ni wneud gwahaniaeth. Cafodd yr arddangosfa gymorth ariannol y Cyngor Cefn Gwlad ac Ymddiriedolaeth Oakdale.

Mae projectau ymchwil a dadansoddi yn tynnu ar gryfder ein casgliadau a'n harbenigedd. Cyflwynwyd canlyniadau ein harolwg o fioamrywiaeth forol ynysedd y Seychelles mewn cyfarfod o'r Gymdeithas Frenhinol i drafod dyfodol projectau ymchwil morol yng ngorllewin Cefnfor India.

Project nodedig arall yw project IGCP 469 y Rhaglen Cydberthyniad Daearegol Gydwladol dan nawdd UNESCO. Yr uned Hanes Llystyfiant sy'n cydlynur project hwn sy'n tynnu gwyddonwyr o bob rhan o Ewrop a Gogledd America at ei gilydd i fesur patrymau bioamrywiaeth a newid amgylcheddol yn y cyfnod Westffalaidd hwyr (tua 300 miliwn o flynyddoedd yn ôl). Y nod yw canfod pa ffactorau oedd yn achosi newid amgylcheddol a gweld a oedd nhw'n gysylltiedig ag unrhyw newid yn yr hinsawdd. Mae dau gyfarfod y flwyddyn i drafod y project a bydd cyfarfod gwanwyn 2005 yng Nghaerdydd.

Bwriad y fenter ryngwladol *Species 2000* yw creu un catalog byd-eang o rywogaethau, sef un o ofynion gweithredu'r Cytundeb Amrywiaeth Fiolegol. Dechreuodd project ymchwil newydd o'r enw *Species 2000 Europa* yn Ebrill 2003 dan nawdd yr Undeb Ewropeaidd. Partneriaeth rhwng tri sefydliad ar hugain yw'r project, gan gynnwys AOCC. Drwy lunio rhestr gyfeirio o folsygiaid dŵr croyw'r byd, daeth AOCC yn aelod o gonsortium *Species 2000*.

counterbalance, it also featured the work of some major conservation organizations and highlighted ways in which we can make a difference. The exhibition received financial support from the Countryside Council for Wales and the Oakdale Trust.

Research and survey projects draw on the strengths of the collections and our expertise. Results of our marine biodiversity survey in the Seychelles were presented at a Royal Society meeting discussing the future needs of marine research in the Western Indian Ocean. The survey was supported by the Royal Geographical Society and the Royal Society Shoals of Capricorn Programme.

Also of particular note in the international arena is the IGCP 469 project within the UNESCO-funded International Geological Correlation Programme. Co-ordinated by the Vegetation History section, it brings together scientists from across Europe and North America to determine patterns of biodiversity and environmental change during the late Westphalian Epoch (about 300 million years ago). The aim is to try and identify those factors that were causing environmental change and to see if there was a link to climate change. The project involved twice-yearly meetings in different centres, and the spring 2005 meeting is in Cardiff.

The international initiative *Species 2000* is creating a single worldwide unified catalogue of species, one of the needs for implementing the Convention of Biological Diversity. A new research project, *Species2000 Europa*, began in April 2003, funded by the European Union. This project is a partnership between twenty-three organizations, including NMGW. As a result, NMGW became a member of the *Species 2000* consortium, providing a checklist of freshwater molluscs of the world.



Cafodd y cerflun gwastraff hwn ei greu gan yr artist Richard Robinson i ddangos faint o sbwriel o bob math rydyn ni'n ei gynhyrchu a'r ffaith ei fod e'n bygwth yr amgylchedd.

This waste sculpture was created by the artist Richard Robinson to illustrate the variety and amount of rubbish we produce which threatens the environment.

‘...mae AOCC yn gofalu am un o archifau pwysicaf y byd o ddogfennau am ddatblygiad a hanes cynnar y gwyddorau daearegol.’

### Daeareg

Yn ogystal â'r casgliadau helaeth o fwynau, cerrig a ffosiliau, mae AOCC yn gofalu am un o archifau pwysicaf y byd o ddogfennau am ddatblygiad a hanes cynnar y gwyddorau daearegol. Prynwyd dogfen nodedig a phrin i ychwanegu at yr archif hon sef copi tanysgrifiwr o fap daearegol cynhwysfawr *A Delineation of the Strata of England and Wales with a part of Scotland (de)*. Dyma'r map daearegol cyntaf o ran helaeth o'r DU, ac yn wir o unrhyw ran o'r byd. Cafodd ei gyhoeddi ym 1815 gan syrffwr a pheiriannydd sifil o Loegr o'r enw William Smith. Roedd y map yn allweddol wrth asesu a datblygu mwynau ac adeiladu ffyrdd a chamlesi ym mlynnyddoedd cynnar y Chwyldro Diwydiannol. Mae pobl wedi cyfeirio ato fel 'y map newidiodd y byd'. Yn ogystal â'i bwys gwyddonol a hanesyddol i'n harchif, mae'r map yn gampwaith gweledol. Dyma fydd canolbwynt arddangosfa fawr ar fapiau a mapio daearegol ymhen ychydig flynyddoedd.

Parhaodd ein gwaith gyda sefydliadau eraill mewn sawl maes. Cymrodd yr adran gamau pwysig dros ben i ffurfioli ein cytundebau project gyda dau gorff cenedlaethol arall, Arolwg Daearegol Prydain a Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Yn achos y diwethaf, mae partneriaeth gyffrous eisoes ar y gweill i rannu a gwella data ar Fwynoleg Cymru drwy gyfrwng gwefan arbennig. Cyflawnwyd arolwg geogadwraeth ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar y cyd ag Adran Gwyddorau Daear Prifysgol Caerdydd. Cafodd y project nawdd drwy raglen y sy'n cael ei goruchwyllo gan y Cyngor Cefn Gwlad ar ran Llywodraeth y Cynulliad.

Mae teithiau astudio ac ymchwil y tu hwnt i Gymru yn ein helpu ni i amlygu gwaith AOCC yng nghyd-destun dealltwriaeth ryngwladol o brosesau'r Ddaear. Eleni, bu staff yr Adran yn gweithio yn Sweden, UDA, Iran, Wsbecistan, yr Ariannin a Bolifia.

### Geology

In addition to the large collections of minerals, rocks and fossils, NMGW houses one of the most important archives in the world of documents related to the early development and history of the geological sciences. A notable and very rare addition to this archive came with the purchase of a subscriber's copy of the first comprehensive geological map of much of the UK, or indeed of anywhere in the world, entitled *A Delineation of the Strata of England and Wales with a part of Scotland (right)*. Published in 1815 by the English surveyor and civil engineer William Smith, this map was of crucial importance in the assessment and development of mineral resources and the construction of roads and canals in the early years of the Industrial Revolution, and has been called 'the map that changed the world'. Apart from its scientific and historical importance for our archive, the map is a stunning visual masterpiece and will form the focal point of a major exhibition on geological maps and mapping in a few years' time.

Collaborative work with other organizations continued on many fronts. Of particular importance were steps to formalise project agreements with two other national bodies, the British Geological Survey and the Countryside Council for Wales. In the latter case an exciting partnership is already under way to present and enhance Mineralogy of Wales data via a dedicated website. A geoconservation survey on behalf of Rhondda Cynon Taff County Borough Council was carried out in conjunction with the Department of Earth Sciences at Cardiff University. Sponsorship of the project was within a programme overseen by the Countryside Council for Wales on behalf of the Welsh Assembly Government.

Study and research visits outside Wales help us to set NMGW's work within an international understanding of Earth processes. This year, staff worked as far afield as Sweden, the USA, Iran, Uzbekistan, Argentina and Bolivia.





### Digwyddiadau a gweithgareddau cyhoeddus

Agorodd yr arddangosfa *Thomas Jones: ailddarganfod artist* yn yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol ar 21 Mai. Cafodd canlyniadau'r gwaith ymchwil newydd a wnaed ar gyfer yr arddangosfa eu cyflwyno mewn cynhadledd ryngwladol yng Nghaerdydd yn yr haf. Cafodd y gynhadledd gymorth hael gan Ganolfan Astudiaethau Celf Brydeinig Paul Mellon.

Llwyfannodd yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol arddangosfa'r Wobr Artes Mundi hefyd. Cystadleuaeth ryngwladol newydd sbon oedd hon oedd yn torri tir newydd wrth ganolbwyntio ar artistiaid sy'n gweithio gyda syniadau am y ffurf ddynol neu bresenoldeb dynol ac sy'n ychwanegu at ein dealltwriaeth o'r cyflwr dynol. Enillydd y wobr o £40,000 oedd yr artist Tsieineaidd Xu Bing sy'n byw Efrog Newydd erbyn hyn. Creodd ei osodwaith *Ble mae'r llwch ei hun yn casglu?* yn arbennig ar gyfer y lleoliad, gan ddefnyddio llwch a gasglodd ger Ground Zero, Efrog Newydd yn sgil trychineb 11 Medi 2001.

Ym mis Mai, sef Mis yr Amgueddfeydd ac Orielau, daeth 2,500 o bobl, gan gynnwys llawer o ymwelwyr newydd o wahanol gymunedau a grwpiau oedran, i ddathlu amrywiaeth diwylliannol yn ystod penwythnos Gŵyl Cymru a'r Byd. Daeth yr Amgueddfa'n fyw i seiniau cerddoriaeth, dawns, straeon a barddoniaeth o bedwar ban y byd, gyda pherfformiadau gan grwpiau cymunedol a phobl broffesiynol. Roedd hi'n gyfle i chwalu'r rhwystrau a darbwylllo pobl fod yr Amgueddfa, ei chasgliadau a'i gwaith, yn berthnasol ac yn ddifrifus i bawb, a chynnig rhywbeth newydd i'r cynulleidfaoedd sy'n dod yma eisoes.

O ganlyniad uniongyrchol i'r ŵyl, cafodd partneriaethau newydd eu sefydlu gyda chyrrff

### Public events and activities

The exhibition *Thomas Jones: an artist rediscovered* opened at the National Museum & Gallery on 21 May. The brand new research undertaken for the exhibition was presented at an international conference in Cardiff during the summer, supported by the Paul Mellon Centre for Studies in British Art.

The National Museum & Gallery was also the venue of the Artes Mundi Prize exhibition, a ground-breaking new international competition focusing on artists working with ideas of the human form or presence and producing work that adds to our understanding of the human condition. The £40,000 prize was awarded to the artist Xu Bing, who was born in China and now lives in New York. His installation *Where does the dust collect itself?* was specially made for the venue, using dust the artist collected in New York near Ground Zero after 11 September 2001.

Museums & Galleries Month was celebrated in May, with the Wales & the World Festival, a weekend of festivities exploring cultural diversity. The Museum came alive with music, dancing, storytelling and poetry from across the world, with performances from both community groups and professionals. The festival attracted 2,500 visitors, including many new visitors from different communities and age groups, as well as offering something fresh for existing audiences. It was an opportunity to break down barriers and convince previous non-visitors that the Museum, its collections and work are of interest and relevance to everyone.

As a direct result of the festival, new partnerships were established with key cultural organizations and community groups. These included CADMAD (Cardiff & District

diwylliannol a grwpiau cymunedol allweddol gan gynnwys CADMAD (Datblygu Celfyddydau Amlddiwylliannol Caerdydd a'r Cylch), *Race Equality First*, MEWN Cymru (Rhwydwaith y Menywod Lleiafrifol Ethnig), Cymdeithas Bangladesh Caerdydd, *Bawso* (Black Association of Women Stepping Out), *Women Connect First* a Llyfrgell Ganolog Caerdydd.

Mae'r Daith Uchafbwyntiau Sain newydd a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn yn rhoi cyfle i ymwelwyr i ddysgu rhagor am drysorau casgliadau celf ac archaeoleg yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol. Cafodd y daith ei chreu gyda phobl ifanc ac oedolion heb fawr o brofiad o'r casgliad mewn golwg ac mae yna fersiwn arbennig ar gyfer ymwelwyr sydd â nam ar eu golwg, gan gynnwys cyfle i gyffwrdd neu i godi rhai o'r gwrthrychau. Cafodd y project gymorth nifer o sefydliadau allweddol, gan gynnwys Cyngor Cymru i'r Deillion, Coleg Brenhinol y Deillion yn Henffordd, yr RNIB yn Llundain, Sefydliad y Deillion yng Nghaerdydd ac RNIB Cymru. Mae'r daith yn galluogi ymwelwyr â nam ar eu golwg i wrando ar y sylwebaeth gyda'u ffrindiau, teulu, cydweithwyr neu ofalwyr sy'n medru gweld. Actorion enwog fel Mathew Rhys, Siân Phillips a Philip Madoc sydd wedi lleisio'r sylwebaeth. Cafodd y project gymorth hael gan Ymddiriedolaeth Colwinston.



Multicultural Arts Development), *Race Equality First*, MEWN Cymru (Ethnic Minority Women's Network), Bangladesh Association Cardiff, *Bawso* (Black Association of Women Stepping Out), *Women Connect First* and Cardiff Central Library.

A new Highlights Audio Tour introduced during the year allows visitors to discover more about the treasures in the National Museum & Gallery's stunning art and archaeology collections. The tour is aimed at young people and adults with little or no prior knowledge of the collection; it has also been specially adapted for visually impaired visitors, and includes several objects that can be touched or handled. The project was helped by a number of key organizations, including Wales Council for the Blind, the Royal College for the Blind, Hereford, RNIB London, Cardiff Institute for the Blind and RNIB Cymru. The tour is designed to enable visually impaired participants to listen and enjoy the commentaries alongside sighted friends, family, colleagues or carers. The tour is narrated by the renowned Welsh actors Mathew Rhys, Siân Phillips and Philip Madoc. It is generously supported by the Colwinston Trust.

**'Mae'r gweithdai a'r sioeau ac ati'n rhagorol. Cawson ni'n siomi ar yr ochr orau gan ymdrechion ychwanegol yr Amgueddfa'r penwythnos yma. Da iawn, diolch.'**

Sylw ymwelydd

**'Great workshops, shows etc. We really enjoyed the extra efforts made by the Museum this weekend. Very good, thank you.'**

Visitor's comments

## Amgueddfa Werin Cymru

Sain Ffagan, Caerdydd, CF5 6XB

Ymweliadau yn 2001-02: 694,899

Ymweliadau yn 2002-03: 623,529

Ymweliadau yn 2003-04: 627,138

Targed 2004-05: 610,000

Fel un o amgueddfeydd awyr agored mwyaf Ewrop, mae Amgueddfa Werin Cymru yn perthyn i'r grŵp o bedair Amgueddfa Hanes Cymdeithasol a Diwydiannol sydd yng ngofal AOCC. Hi yw cartref ein hadran guradurol fwyaf sef Bywyd Gwerin. O ail-greu pentref Celtaidd hynafol i godi Tŷ newydd sbon ar gyfer y Dyfodol, gall ymwelwyr grwydro a mwynhau dros 2,000 o flynyddoedd o hanes mewn dros ddeugain o adeiladau gwreiddiol o bob cwr o Gymru.

### Bywyd Gwerin

Mae'r Adran Bywyd Gwerin yn gofalu am gasgliadau tra amrywiol sy'n cynnwys adeiladau hanesyddol, gwrthrychau materol, llyfrgell a deunydd archif. Er mai yn yr Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan mae cartref yr adran, mae'n darparu gwasanaethau curadurol ar gyfer amgueddfeydd hanes cymdeithasol eraill AOCC.

Ar ôl penodi saer ychwanegol i'r Uned Adeiladau Hanesyddol, gwnaed brasgampau yn y gwaith o ailgodi Eglwys Sant Teilo, yr eglwys ganoloesol o Ddyffryn Tawe. Cwblhawyd



## Museum of Welsh Life

St Fagans, Cardiff, CF5 6XB

Visits in 2001-02: 694,899

Visits in 2002-03: 623,529

Visits in 2003-04: 627,138

Target 2004-05: 610,000

One of Europe's leading open-air museums, the Museum of Welsh Life is part of the group of four Social & Industrial History Museums run by NMGW. It is home to our largest curatorial department, Social & Cultural History. From the re-creation of an ancient Celtic village to the erection of a brand new House for the Future, visitors can explore and enjoy over 2,000 years of history in over forty re-erected period buildings from all over Wales.

### Social & Cultural History

The Social & Cultural History Department cares for a wide variety of collections, including historic buildings, artefacts, a library and archive material. Although the division is based at the Museum of Welsh Life in St Fagans, it offers curatorial services to NMGW's other social history museums.

Having appointed an extra carpenter to the Historic Buildings Unit, significant steps have been made in the work to rebuild St Teilo's Church, the medieval church from the Swansea Valley.



to'r gangell a'i orchuddio â theils cerrig. Bu rhaid gwneud saith o drawstiau newydd i gynnal to'r gangell, â phob un ohonynt yn cymryd mis i'w saerïo yn y dull traddodiadol.

Trwy gydol y gwaith ailgodi, bu dehonglydd yr eglwys ac aelodau'r Uned Adeiladau Hanesyddol yn rhoi sgysiau ac arddangosfeydd ymarferol o'u gwaith i grwpiau o ymwelwyr. Gwelwyd y cydweithredu agos rhwng staff yr adran, arbenigwyr allanol a chymuned wreiddiol yr eglwys ym Mhontarddulais ar Ddydd Sant Teilo, digwyddiad hynod o lwyddiannus unwaith yn rhagor. At hynny, cyfrannodd yr uned adeiladau hanesyddol at ddau ddigwyddiad arall oedd yn tynnu sylw at grefftau adeiladu traddodiadol, sef penwythnos Brawdoliaeth y Seiri a'r Ffair Sgiliau Treftadaeth.

Pobl o gymuned wreiddiol Eglwys Sant Teilo'n dathlu Dydd Sant Teilo yn yr Amgueddfa.



People from the original community of St Teilo's Church come and celebrate St Teilo's Day at the Museum.

The chancel roof has been completed and covered with stone tiles; seven new beams were made to support the chancel roof, with each taking a month to craft in the traditional fashion.

Throughout the rebuilding work, the interpreter and members of the Historic Buildings Unit have been giving talks and demonstrations to groups of visitors. There was close co-operation between the staff, external experts and the church's original community from Pontarddulais on Saint Teilo's Day, which was a great success once again. In addition, the Historic Buildings Unit contributed to two other events to draw attention to traditional building techniques: the Carpenters' Fellowship weekend and the Heritage Skills Fair.

Repairs were made to a number of buildings, most notably to the hayshed from Maentwrog following a fire started through arson. The hard work to restore the Italian Garden was completed, and it was officially opened by HRH The Prince of Wales. The Garden was also highly commended by the Historic Gardens Foundation.

Cafodd nifer o'r adeiladau eu trwsio, yn fwyaf arbennig y sied wair o Faentwrog wedi tân a ddechreuwyd yn fwrriadol. Daeth yr holl waith caled o adfer yr Ardd Eidalaid i ben o'r diwedd, ac enillodd yr ardd glod mawr gan yr *Historic Gardens Foundation*.

Wedi i'r contractwyr orffen y gwaith o drwsio to Castell Sain Ffagan, gwnaeth ein staff ymdrech arbennig i gael y prif ystafelloedd yn barod ar gyfer cynhadledd Cyngor Prydain ac Iwerddon, ac ymweliad y Prif Weinidog, Tony Blair. Agorwyd Cegin y Castell ar ei newydd wedd am y tro cyntaf. Gwnaed gwelliannau i'r Stordy Gwisgoedd yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau amodau storio mwy addas ar gyfer y casgliad sylweddol o wisgoedd, hetiau ac esgidiau, a gwnaed llawer o waith ar yr Oriol Amaethyddiaeth o safbwynt gwella amodau arddangos a diweddarau'r cynnwys.

Cafwyd ychwanegiadau pwysig i'r casgliadau eleni. Prynwyd casgliad o ddodrefn Cymreig a ffurfiwyd yn wreiddiol yn y 1880au gan William Scott o Blasty Cefngwifed, Tregynon, Trefaldwyn, oddi wrth y Fonesig Middleton. Roedd William Scott yn asiant i ystâd Gregynog o 1842 i'r 1890au, yn ogystal â bod yn hanesydd ac yn hynafiaethydd brwd. Casglodd ddarnau o ddodrefn o wneuthuriaid lleol o blwyfi Tregynon, Bettws Cedewain, Manafon ac Aberhafesp yn nwyrain Trefaldwyn, yn dyddio o'r 17eg a'r 18fed ganrif. Mae'r casgliad yn dangos nid yn unig nodweddion sy'n arbennig i'r rhan honno o Gymru, ond hefyd dylanwad ardaloedd cyfagos yn Lloegr a ffasiynau'r oes ar y crefftwyr.

Mae'r archif sain yn datblygu fwyfwy fel cartref cenedlaethol i gynnyrch projectau tystiolaeth lafar. Ychwanegwyd at y casgliad recordiadau a wnaed ar gyfer Arolwg Tafodieithol y Bwrdd Gwybodau Celtaidd yn 1993, oedd yn olrhain nodweddion ffonolegol tafodieithoedd

Following the completion of the repairs to the roof of St Fagans Castle, our conservation staff made a special effort to prepare the main rooms for the conference of the Anglo-Irish Council and a visit by the Prime Minister, Rt Hon. Tony Blair. The refurbished Kitchens were opened for the first time. Improvements were made to the Costumes Store during the year in order to offer more suitable storage conditions for the vast collection of costumes, hats and shoes, and a lot of work was carried out in the Agriculture Gallery in terms of improving the display conditions and updating the content.

There have been some important additions to the collections this year. A collection of original Welsh furniture made in the 1880s by William Scott from Cefngwifed Manor, Tregynon, Montgomery, was bought from Lady Middleton. William Scott was the agent of the Gregynog estate from 1842 to the 1890s, he was also an avid historian and antiquarian. He collected 17th- and 18th-century furniture made locally in the parishes of Tregynon, Bettws Cedewain, Manafon and Aberhafesp in west Montgomery. They not only display characteristics specific to that part of Wales, but also how local craftsmen were influenced by neighbouring areas in England and the fashion of the era.

The sound archive is developing more and more as a national home for oral evidence projects. Additions were made to the collection of recordings made for the Celtic Studies Board's Dialectic Survey of 1993, which traces the phonological characteristics of the dialects of Wales. There were also 167 disks from the Forest Enterprise's oral history project *The History of the Forest*, and Trinity College Carmarthen's project *Voices of Agriculture*, documenting changes in farming in Wales since the Second World War, is also being archived at the Museum of Welsh Life. There was heavy demand for the services of



Cymru. At hynny, cafwyd casgliad o 167 o ddisgiau yn sgil project hanes llafar y Fenter Coedwigaeth ar *Hanes y Goedwig*, ac mae cynnyrch project *Lleisiau Amaethyddiaeth* Coleg y Drindod yng Nghaerfyrddin (sy'n cofnodi'r newidiadau i ffermio yng Nghymru ers yr Ail Ryfel Byd) yn cael ei archifo yn yr Amgueddfa Werin hefyd. Bu cryn alw am wasanaethau'r llyfrgell a'r archifau: yn ystod y flwyddyn cafwyd bron i dair mil o ymholiadau a 460 o ymwelwyr.

Trefnodd yr Adran nifer o arddangosfeydd dros dro yn ystod y flwyddyn. Y mwyaf poblogaidd o'r cwbl gan yr ymwelwyr oedd yr arddangosfa fendigedig o decstilau o dalaith Gwjarat, *Drych, Glain ac Edau*. I gyd-fynd â'r arddangosfa liwgar hon, trefnwyd cyfres o weithdai brodio. Canolbwynt yr oriel oedd anferth o gamel a wnaed o ddeunyddiau naturiol gan yr artist Helen Malia yn ystod cyfres o weithdai i blant.

Un o'r mentrau addysg mwyaf cyffrous y buom yn gweithio ami eleni oedd *Llwybrau Llafar Sain Ffagan*. Project a noddwyd gan ELWa oedd hwn i baratoi deunyddiau dysgu ar y we i alluogi dysgwyr i ddefnyddio'r Amgueddfa Werin, ei staff a'i chasgliadau, i ymarfer eu Cymraeg.

Cafwyd cryn dipyn o sylw gan y cyfryngau yn ystod y flwyddyn; bu ITVI Cymru yn ffilmio staff wrth eu gwaith ar gyfer cyfres deledu am yr Amgueddfa Werin, a darlledwyd cyfres o chwe rhaglen hanner awr ar Radio Cymru yn seiliedig ar ddeunydd o'r archif sain.

### Digwyddiadau a gweithgareddau cyhoeddus

Cafwyd dau ddigwyddiad mawreddog yn yr Amgueddfa Werin yn ystod y flwyddyn. Ym mis Gorffennaf, daeth EUB Tywysog Cymru i'r Amgueddfa am y tro cyntaf; ac yn ystod yr ymweliad agorodd yr Ardd Eidalaid yn swyddogol. Ym mis Tachwedd, cafwyd cyfarfod o Gyngor Prydain

the library and archive: nearly three million enquiries and 460 visitors were received.

The Department organized a number of temporary exhibitions during the year. The most popular amongst our visitors was the fantastic exhibition of Gujarati textiles *Mirror, Bead and Thread*. A series of embroidery workshops was organized to coincide with this colourful exhibition and an enormous camel made from natural fabrics by the artist Helen Malia during a series of children's was displayed in the centre of the gallery.

One of our most exciting educational initiatives this year was *Llwybrau Llafar Sain Ffagan*, a project sponsored by ELWa to prepare web-based teaching materials enabling Welsh learners to use the Museum of Welsh Life, its staff and collections to practice the language.

We attracted significant media attention during the year. ITVI Wales filmed Museum staff at their jobs for a television series, and a series of six half-hour programmes was broadcast on Radio Cymru based on materials in the sound archive.

### Public events and activities

During the year, the Museum of Welsh Life hosted two very prestigious events. In July, HRH The Prince of Wales paid his first visit to the Museum; during the course of the visit he officially opened the Italian Garden. In November, the Museum was the venue for a meeting of the British-Irish Council hosted by the First Minister, the Rt Hon. Rhodri Morgan AM.

The delegates included both the Rt Hon. Tony Blair and the Irish Prime Minister, Bertie Ahearn. The Conference itself was held at the Oakdale Workmen's Institute, with lunch being

ac Iwerddon yn yr Amgueddfa dan nawdd Prif Weinidog Cymru, Rhodri Morgan AC.

Roedd y cynrychiolwyr yn cynnwys y Gwir Anrh. Tony Blair a Phrif Weinidog Iwerddon, Bertie Ahearn. Cynhaliwyd y gynhadledd ei hun yn Sefydliad y Gweithwyr Oakdale, gyda chinio yng Nghastell Sain Ffagan. Am resymau diogelwch bu rhaid cau'r safle i'r cyhoedd am ddeuddydd.

Ers cyflwyno mynediad am ddim, mae pwyslais rhaglen ddigwyddiadau a gweithgareddau'r Amgueddfa wedi symud o gynnal digwyddiadau graddfa fawr i estyn y tymor ymwelwyr a gwasgaru ymwelwyr i bob cwr o'r safle yn ystod y cyfnodau prysur. Llwyddodd digwyddiadau bychain fel Dydd Santes Dwynwen, Dydd Sant Ffolant a Dydd Sant Teilo i



Yn ystod ei ymweliad, aeth y Tywysog Charles i archwilio'r gwaith ar Eglwys Sant Teilo (*uchod*), a sgwrsiodd gyda staff yr Uned Adeiladau Hanesyddol (*de*).

Prince Charles examined the work on St Teilo's Church (*above*) and chatted to staff from the Historic Buildings Unit (*right*) during his visit.



served in St Fagans Castle. Security considerations necessitated the closure of the site to the public for two days.

Since the advent of free admission, there has been a refocusing of the Museum's events and activities programme away from the staging of large scale events to an emphasis on extending the visitor season and dispersing visitors throughout the site during the busiest periods. Smaller scale events such as Dydd Santes Dwynwen (the Welsh equivalent of St Valentine), St Valentine's Day itself and St Teilo's Day all boosted visitor figures during January and February.

gynyddu niferoedd yr ymwelwyr yn Ionawr a Chwefror.

Mae'r rhaglenni o weithgareddau bychain yn ystod gwyliau'r ysgol wedi bod yn hynod lwyddiannus. Roedd presenoldeb bron i 30,000 o ymwelwyr yn ystod hanner tymor mis Chwefror yn brawf o hynny.

Roedd yr hydref yn gyfnod prysur dros ben. Cafodd rhaglen arferol yr Amgueddfa, sy'n cynnwys dathliadau Gŵyl Mihangel, Noson Calan Gaeaf a'r Goeden Nadolig, ei hategu gan ddau ddiwyddiad ychwanegol sef penwythnos Brawdoliaeth y Seiri, cyfarfod rhyngwladol o weithwyr coed traddodiadol (12-14 Medi) a ddenodd dros 6,000 o ymwelwyr, a Chynhadledd a Ffair Sgiliau cyntaf yr Ymddiriedolaeth Gwybodaeth am Dreftadaeth (3-4 Hydref) a ddenodd 6,600 o bobl dros gyfnod o ddeuddydd.

Bu AmgylchWyl, yr ŵyl amgylcheddol flynyddol ar 27-29 Mehefin, yn llwyddiant ysgubol. Bu angen gosod tri deg wyth o ysgolion ar restr aros wrth gefn i ddod i'r ddau ddiwrnod ar gyfer ysgolion am fod cynifer o ysgolion wedi mynegi diddordeb. Cafodd y digwyddiad gefnogaeth gan Gyngor Sir Caerdydd drwy'r Cynllun Credydau Trethi Tirlenwi, Legal & General, Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Fforwm Gwastraff Caerdydd. Bu Gŵyl Theatr yr Haf yn llwyddiannus eto eleni gan ddenu mwy o bobl na'r flwyddyn flaenorol.

Llwyddodd hyn oll i godi nifer yr ymwelwyr i ffigur aruthrol o 627,000 gan gadw Amgueddfa Werin Cymru ar y brig fel atyniad ymwelwyr mwyaf poblogaidd Cymru.

During school holidays, programmes of small-scale activities have proved hugely successful, as the attendance of almost 30,000 visitors during the February half-term demonstrated.

Autumn was a particularly busy period, with the regular programme of Harvest Festival, Halloween and Christmas Fair being supplemented by two additional events: the Carpenters Fellowship, an international gathering of traditional wood-workers (12-14 September) attracting over 6,000 visitors, and the inaugural Heritage Information Trust Conference and Skills Fair (3-4 October), which attracted 6,600 people over the two days.

Ecofun, the annual environmental festival, held on 27-29 June, was a huge success with the two schools' days heavily over-subscribed. This year's event was supported by Cardiff County Council through the Landfill Tax Credit Scheme, Legal & General, Environment Agency Wales, Countryside Council for Wales and Cardiff Waste Forum. The Summer Theatre Festival was also well supported with attendance up on the previous year.

All this served to boost overall attendance to a remarkable 627,000, with the Museum of Welsh Life retaining its position as Wales's most popular visitor attraction.

## Amgueddfa Lechi Cymru

Gilfach Ddu, Llanberis, Gwynedd, LL55 4TY

Ymweliadau yn 2001-02: 144,408

Ymweliadau yn 2002-03: 130,201

Ymweliadau yn 2003-04: 137,164

Targed 2004-05: 128,000


Yn Amgueddfa Lechi Cymru daw stori llechi'n fyw wrth i ymwelwyr wyllo crefftwyr medrus yn hollti ac yn naddu'r llechi â llaw a gwyllo'r olwyn ddŵr fwyaf sy'n dal i weithio ar dir mawr Prydain. Mae'r Amgueddfa hefyd yn rhoi cipolwg unigryw ar fywydau'r chwarelwyr a'u teuluoedd yn 1-4 Fron Haul – rhes o fythynnod gafodd eu symud i'r Amgueddfa o'u safle gwreiddiol yn Nhanygrisiau a'u dodrefnu yn null tri chyfnod gwahanol mewn hanes.

Cefndir llawer o'r gweithgareddau yn ystod y flwyddyn oedd y digwyddiadau ym Methesda ganrif yn ôl – 'Y Chwalfa'. Daeth streic tair blynedd Chwarel y Penrhyn ym Methesda i ben ym mis Tachwedd 1903. Y streic hon oedd un o'r hiraf yn hanes llafur Prydain, a gosododd sylfeini radicaliaeth gwleidyddiaeth yng Nghymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif.

Ffocws naturiol y dathliadau oedd Tŷ'r Chwarelwr o 1901 sy'n adlewyrchu dioddefaint pobl Bethesda yn y cyfnod o dan sylw, a chafodd nifer o gyflwyniadau teledu a radio eu recordio yno yn ystod y flwyddyn. Cyflwynodd Undeb y Gweithwyr Trafnidiaeth a

Cafodd yr arwydd isod ei osod yn y ffenestr i ddangos nad oedd y chwarelwr oedd yn byw yn y tŷ wedi dychwelyd i'r gwaith yn ystod streic fawr 1900-1903 – un o streiciau hiraf hanes llafur Prydain.

Tŷ'r chwarelwr o 1901 (isod) oedd canolbwynt y gweithgareddau i ddathlu canmlwyddiant diwedd y streic.



This sign (above, top) was placed in the window of a house to show the occupant had not returned to work during the great strike of 1900-1903 – one of the longest in British labour history.

The 1901 quarryworker's house (above) was the focus for activities celebrating the centenary of the end of the strike.

## Welsh Slate Museum

Gilfach Ddu, Llanberis, Gwynedd, LL55 4TY

Visits in 2001-02: 144,408

Visits in 2002-03: 130,201

Visits in 2003-04: 137,164

Target 2004-05: 128,000

At the Welsh Slate Museum the story of slate unfolds, as visitors watch skilled craftsmen deftly split and dress slate by hand or view the largest working waterwheel on mainland Britain. The Museum also offers a unique glimpse into the lives of the quarrymen and their families at 1-4 Fron Haul – a terrace of cottages that were moved to the Museum from their original site in Tanygrisiau and furnished in three different historical periods.

Events in Bethesda – 'Y Chwalfa' – a century ago provided a poignant context for many of this year's learning and curatorial activities at the Welsh Slate Museum. The three-year strike at the Penrhyn Quarry, Bethesda, came to an end in November 1903. As well as being one of the longest in British labour history, the strike provided an iconic foundation for the radicalisation of Welsh politics in the early twentieth century.

The 1901 Quarryman's House, which reflects the suffering of those who lived in Bethesda at that time, was the natural focus for a series of events and activities throughout the year,

Chyffredinol y plac gwreiddiol i ddathlu sefydlu Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru ym 1874 sydd ar Graig yr Undeb ger Llanberis yn rhodd i'r Amgueddfa.

Mae partneriaethau a'u canlyniadau yn bwysig i waith yr Amgueddfa. Ym Mehefin 2003, agorodd ein cymydog, Cwmni Rheilffordd Llyn Llanberis, estyniad i wasanaethu terminws newydd sy'n agosach at ganol y pentref. Mae hyn yn golygu ei bod hi'n haws fyth cyrraedd yr Amgueddfa ar gludiant cyhoeddus.

Gyda chymorth Bwrdd yr Iaith Gymraeg, aeth Mentrau Iaith y gogledd-orllewin ati i sefydlu cynllun Gwyliau Cymraeg i bobl sydd am wella eu Cymraeg. Mae'r Amgueddfa'n bartner yn y cynllun, a chymrodd ran yn y lansiad ym Mhortmeirion ym mis Mawrth. Yn wir, yn 2003-04 defnyddiodd y Cynulliad ei hun yr Amgueddfa fel rhan o'i rwydwaith o Bwyntiau Gwybodaeth, gyda dau o'n chwarelwyr yn dangos eu crefft ym mhafiliwn y Cynulliad yn Eisteddfod Genedlaethol Meifod.

Mae Partneriaeth Llanberis wedi gwneud gwaith rhagorol wrth farchnata'r ardal fel cyrchfan, diolch i gyllid gan Awdurdod Datblygu Cymru a Chyngor Gwynedd. Mae'r Partneriaeth yn adrodd i Fforwm Padarn, y mae AOCC yn gadeirydd arno ac y mae Amgueddfa Lechi Cymru'n ysgrifennydd iddo. Felly roedd y Partneriaeth yn falch iawn i ennill gwobr glodfawr y Bwrdd Croeso am Dwristiaeth yn y Gymuned ym mis Tachwedd.

Mae Amgueddfa Lechi Cymru a'r Pwll Mawr fel ei glydd wedi cael eu henwebu fel dau o'r tri angorbwynt ar gyfer Llwybr Treftadaeth Ddiwydiannol Ewrop yng Nghymru. Bydd cadarnhad bod cyllid Ewropeaidd ar gael i ddatblygu'r llwybr hwn drwy INTEREG III yn

as well as providing a background for several television and radio presentations. The Transport and General Workers Union donated the original plaque – mounted on Craig yr Undeb near Llanberis – commemorating the formation of *Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru* (The North Wales Quarrymen's Union) in 1874.

Partnerships, and their results, are important to the Museum's work. In June 2003, The Llanberis Lake Railway Company, a close neighbour, opened an extension serving a new terminus nearer to the village centre. Access to the Museum by means of public transport is now even easier.

The Mentrau Iaith in north-west Wales, supported by the Welsh Language Board, have established a Holidays in Welsh scheme for those who wish to improve or extend their knowledge of the Welsh language. The Museum is a partner in this scheme, and took part in the launch at Portmeirion in March. Indeed, the National Assembly itself has used the Museum as part of its Information Point network during 2003-04, with two of our quarrymen providing hands-on demonstrations of their craft skills in the Assembly pavilion at the National Eisteddfod in Meifod.

Excellent destination marketing and management work has been done locally by the Llanberis Partnership, funded by the WDA and Gwynedd Council. The Partnership reports to the Padarn Forum, which is chaired by NMGW and has its secretariat provided by the Welsh Slate Museum. It was with pride, therefore, that the Partnership received the Wales Tourist Board's prestigious Tourism in the Community award in November.



galluogi'r ddwy amgueddfa i chwarae rhan amlycach fel cyfeiryddion twristiaeth mewn dwy ardal sydd mor bwysig i ddiwydiant yng Nghymru.

Yn yr Amgueddfa ei hun, cafodd oriel sydd wedi bod yn segur tan nawr ei hailwampio er mwyn arddangos offer a chyfarpar y chwarelwyr. Caiff dau gyflwyniad DVD eu dangos yn yr oriel, y naill yn ymdrin â ffurfiant llechi, a'r llall yn cyferbynnu hen ddulliau o drin llechi â rhai modern, a'r gobaith yw creu awyrgylch syml ond dymunol.



Alun Pugh AC yn troi ei law at hollti a naddu yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod.

Alun Pugh AM tries his hand at slate-dressing at the National Eisteddfod in Meifod.

Both the Welsh Slate Museum and Big Pit have been nominated as two of the three anchor points in Wales for the European Route of Industrial Heritage. Confirmation of the availability of European INTEREG III funding to develop this route will enable both museums to play a wider orientational role in two of Wales's key industrial areas.

Within the Museum, a hitherto under-used gallery space has been refurbished, providing facilities for exhibiting quarrymen's tools and equipment. Combined with two existing DVD-based presentations dealing with the formation of slate, and contrasting old with present day methods of working slate, the gallery provides a simple but pleasing ambience.

## Yr Amgueddfa Wlân Genedlaethol

Dre-fach Felindre, Llandysul, Sir Gaerfyrddin, SA44 5UP

Ymweliadau yn 2001-02: 12,576

Ymweliadau yn 2002-03: ar gau yn ystod gwaith ailddatblygu

Ymweliadau yn 2003-04: ailagor ar 31 Mawrth 2004

Targed 2004-05: 35,000

Yng nghefndir prydferth dyffryn Teifi wrth galon y gorllewin, mae'r Amgueddfa Wlân Genedlaethol yn adrodd hanes y pedwar deg melin oedd yn glwstwr o gwmpas Dre-fach Felindre ers lawer dydd. Cartref yr Amgueddfa yw'r hen Ffatri Cambrian – yr unig felin yn y pentref sydd wedi bod yn gweithio'n ddi-dor ers ei hadeiladu. Mae technegau canrifoedd oed, sgiliau anghofiedig a ffyrdd traddodiadol o fyw yn cyd-fyw â melin wlân lewyrchus, sy'n dal i gynhyrchu ar gyfer y farchnad fodern heddiw.

Agorodd drysau'r Amgueddfa eto ar 31 Mawrth 2004. Ymhlith y bobl gyntaf i ddod nôl drwy'r drws roedd plant ysgol lleol oedd wedi helpu'r Amgueddfa i ddathlu dechrau'r project ailddatblygu ar 1 Mawrth 2002. Ar ôl gorymdeithio drwy'r pentref, agorodd disgyblion Ysgol Pen-boyr y gatau drwy ddatod cwllwm brethyn coch anferth a wnaed yn yr Amgueddfa ei hun.

Roedd y rhaglen gwerth £2.6m yn cynnwys trwsio hen adeiladau rhestredig y felin, gwella'r cyfleusterau i ymwelwyr, creu ystafell addysg bwrpasol a moderneiddio'r dehongliad.



## National Woollen Museum

Dre-fach Felindre, Llandysul, Carmarthenshire, SA44 5UP

Visits in 2001-02: 12,576

Visits in 2002-03: closed for redevelopment

Visits in 2003-04: re-opened on 31 March 2004

Target 2004-05: 35,000

Located in the beautiful Teifi valley in the heart of west-Wales, the National Woollen Museum tells the story of the forty mills once clustered around Dre-fach Felindre. Cambrian Mills – the only mill in the village, which has remained in continuous operation since it was built – now houses the Museum. Centuries-old techniques, forgotten skills and traditional ways of life sit alongside a thriving, working woollen mill, still producing for the modern market.

The Museum re-opened on 31 March 2004, with local school children among the first back through the door, having helped the Museum celebrate the beginning of the redevelopment project on 1 March 2002. After walking through the village, the pupils of Ysgol Penboyr opened the gates by untying a huge red flannel bow, woven at the Museum.

The £2.6m investment programme included the repair of the listed mill buildings, improved visitor facilities, dedicated educational facilities and modern interpretation of the collections. This programme has been supported by the Heritage Lottery Fund, ERDF Objective 1, the



Bu'r rhaglen yn bosibl diolch i gymorth Cronfa Dreftadaeth y Loteri, ERDF Amcan I, Ymddiriedolaeth SR a PH Southall, Ymddiriedolaeth Elusenol G. C. Gibson, Sefydliad y Gweithwyr Brethyn, y *Worshipful Company of Weavers* a Chyfeillion AOCC. Newidiwyd ei henw o Amgueddfa Diwydiant Gwlân Cymru i'r Amgueddfa Wlân Genedlaethol, a hi bellach fydd yn arwain wrth ddathlu ac adrodd hanes diwydiant gwlân Cymru.

Yn ogystal â'r dehongliad llawn dychymyg, mae nodweddion newydd cyffrous yr amgueddfa yn cynnwys iard dan do gwyrdr a chyfle i weld y gwaith o gynhyrchu tecstilau o safbwynt unigryw ar rodffa arbennig uwchben melin wlân fasnachol y safle. Mae'r cyfleusterau newydd a gwell ar gyfer ymwelwyr yn cynnwys siop a chaffi newydd yn ogystal â chyfleusterau ar gyfer pobl anabl.

Roedd aiddatblygu'r Amgueddfa Wlân Genedlaethol yn rhan annatod o strategaeth ddiwydiannol AOCC. Diolch i gymorth Llywodraeth y Cynulliad a phartneriaid eraill, mae £40m yn cael ei fuddsoddi mewn ardaloedd Amcan Un yng Nghymru i ddathlu ein treftadaeth ddiwydiannol. Mae'r strategaeth yn cwmpasu tair amgueddfa sy'n bodoli eisoes – yr Amgueddfa Wlân Genedlaethol, Amgueddfa Lechi Cymru a'r Pwll Mawr: yr Amgueddfa Lofaol Genedlaethol – yn ogystal â datblygu Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe.



SR & PH Southall Trust, the G.C. Gibson Charitable Trust, the Clothworkers' Foundation, the Worshipful Company of Weavers and the Friends of NMGW. Formerly known as the Museum of the Welsh Woollen Industry, the National Woollen Museum will now play the lead role in celebrating and telling the story of the Welsh woollen industry.

As well as the imaginative interpretation, modern new features include a glass-roofed courtyard and a unique view of textile production from a raised walkway over the site's commercial woollen mill. Improved visitor amenities include a new shop and café as well as access and facilities for the disabled.

The redevelopment of the National Woollen Museum forms an integral part of NMGW's industrial strategy. With the support of the Welsh Assembly Government and other funding partners, £40m is being invested in Objective One areas to celebrate the industrial heritage of Wales. The strategy embraces three existing site-specific museums – the National Woollen Museum, the Welsh Slate Museum and Big Pit: National Mining Museum – as well as the development of the new National Waterfront Museum in Swansea.



## Pwll Mawr: Yr Amgueddfa Lofaol Genedlaethol

Blaenafon, Torfaen, NP4 9XP

Ymweliadau yn 2001-02: 130,037

Ymweliadau yn 2002-03: 116,278

Ymweliadau yn 2003-04: 117,703

Targed 2004-05: 130,000



Max Boyce oedd y gwestai arbennig wrth lansio'r Pwll Mawr ar ei newydd wedd ym mis Chwefror.

Max Boyce was a guest at the public launch of the redeveloped Big Pit in February.

Ar ei safle wrth galon Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon, mae'r Pwll Mawr yn cynnig profiad sydd heb ei ail ym Mhrydain ac un sy'n unigryw yng Nghymru. Yng nghwmni cyn-lowyr, mae'r ymwelwyr yn disgyn 300 troedfedd i berfeddion y pwell i brofi'r tywyllwch llwyr roedd y chwarelwyr yn gweithio ynddo ddydd ar ôl dydd. Mae'r atyniadau a'r cyfleusterau ar y wyneb yn cynnwys adeiladau'r lofa, baddonau pen y pwell, gweithdy gof, tŷ'r injan weindio a chaffi.

Ymddiriedolaeth Elusennol annibynnol a Chwmni Cyfyngedig oedd y Pwll Mawr tan 2001. Yn 2001-02, daeth o dan adain amgueddfa genedlaethol – sefydliad cenedlaethol a Chorff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad. Cwblhawyd project aildatblygu cyfalaf gwerth £7m yn Hydref 2003, ac ailgorodd y Pwll Mawr i'r cyhoedd yn Chwefror 2004.

## Big Pit: National Mining Museum

Blaenafon, Torfaen, NP4 9XP

Visits in 2001-02: 130,037

Visits in 2002-03: 116,278

Visits in 2003-04: 117,703

Target 2004-05: 130,000

Set in the heart of the World Heritage Site at Blaenafon, Big Pit offers an experience unparalleled in Britain and unique to Wales. Guided by ex-miners, visitors descend 300 feet to the very depths of the mine and experience the total darkness that the miners worked in day after day. Surface features and facilities include colliery buildings, pithead baths, a blacksmith's workshop, the winding engine house and a café.

Until February 2001 Big Pit had operated as an independent Charitable Trust and Limited Company. During 2001-02, it became a national museum within a national institution that is also an Assembly Sponsored Public Body. A £7m capital redevelopment project was completed in October 2003, and Big Pit re-opened in February 2004.

The public launch of the new Big Pit was celebrated on 16 February, and popular Welsh entertainer Max Boyce visited the site to view a locker dedicated to him in the Pithead Baths. Max, who started his career as a colliery electrician, admitted that he was humbled by a reference to his contribution to the cultural life of Wales in one of the new displays.


*'Big Pit is ... in our opinion of world class quality and it is pleasing to see how HLF's financial contribution has been so effectively used.'*

Professor Tom Pritchard,  
Chair of HLF Wales  
Committee

Dathlwyd lansiad cyhoeddus y Pwll Mawr ar ei newydd wedd ar 16 Chwefror pan ddaeth y diddanwr Max Boyce i'r safle i weld locer arbennig oedd yn coffáu ei gyfraniad at fywyd diwylliannol Cymru yn y Baddonau Pen Pwll. Dechreuodd Max ei yrfa fel trydanwr mewn pwell glo a chyfaddefodd iddo deimlo gwefr wrth weld ei locer yn yr arddangosfeydd newydd.

Yn Ebrill 2004, dathlodd y Pwll Mawr ei ben-blwydd yn un ar hugain oed ac mae'r safle 'wedi dod i oed' fel atyniad i dwristiaid eleni. Mae uchafbwyntiau profiad newydd y Pwll Mawr yn cynnwys oriel lofaol, lle caiff ymwelwyr eu tywys drwy gyfres o sefyllfaoedd creu yng nghwmni glöwr rhithwir, sy'n dangos sut datblygodd dulliau cloddio modern; ac adeilad y Baddonau Pen Pwll gafodd ei aildatblygu a'i ailwampio er mwyn edrych yn fanwl ar hanes y diwydiant glo yng Nghymru.

Mae orielau ac arddangosfeydd newydd sbon yn rhan o brofiad newydd y Pwll Mawr.



During April 2004, Big Pit celebrated its twenty-first birthday as a tourist attraction, and the site has truly 'come of age' during the year leading up to this anniversary. Highlights of the new Big Pit experience include the mining gallery, where visitors are guided through a series of tableaux showing the development of modern mining with the help of a virtual miner, and the redeveloped and re-exhibited Pithead Baths building, where the history of the mining industry in Wales is explored in detail.

Big Pit's official opening took place in April. Alun Pugh AM, Minister for Culture, Welsh Language and Sport expressed his delight at seeing how Big Pit has made the transition from a working mine to a twenty-first-century tourist attraction, giving an authentic depiction of life as a miner in Wales.

Brand new galleries and displays form part of the new Big Pit experience.

**‘Mae'r Pwll Mawr ...  
o safon ryngwladol yn ein  
barn ni ac mae'n bleser  
gweld bod cyfraniad  
ariannol CDL wedi cael ei  
ddefnyddio mor effeithiol.’**

Yr Athro Tom Pritchard,  
Cadeirydd Pwyllgor CDL  
Cymru



Lansiodd yr hanesydd John Davies becyn newydd i'r we, *Plant y Chwyldro*, yn y Pwll Mawr ym mis Tachwedd 2003.

The historian John Davies launched the new web resource *Children of the Revolution* at Big Pit in November 2003.

Cynhaliwyd agoriad swyddogol ym mis Ebrill. Dywedodd Alun Pugh AC, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon, ei fod wrth ei fodd i weld sut mae'r Pwll Mawr wedi newid o fod yn bwll gweithiol i fod yn atyniad ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain gyda chyfleusterau modern sy'n rhoi darlun go iawn o fywyd glowyr Cymru.

Bu aildatblygiad y Pwll Mawr yn bosibl diolch i gymorth Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, Bwrdd Croeso Cymru, Sefydliad Garfield Weston, Sefydliad Lloyds TSB, Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo, y Gronfa Adfywio Lleol, Ymddiriedolaeth Pilgrim ac Ymddiriedolaeth SR a PH Southall.

Yn Nhachwedd 2003 lansiodd pecyn *Plant y Chwyldro*. Project ar y we yw hwn a gododd o bartneriaeth rhwng y Pwll Mawr a Gwasanaeth Gwella Ysgolion Casnewydd. Mae'r pecyn, a ariannwyd gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, yn edrych ar fywyd gwaith a chartref ym Mlaenafon yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'n cynnig cynllun gwaith cyflawn ar gyfer Hanes yng Nghyfnod Allweddol Dau, ynghyd â chysylltiadau trawsgwricwlaidd. Mae'n bosibl defnyddio'r pecyn ar-lein neu ei lwytho i lawr a'i ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau addysg ffurfiol.



The redevelopment of Big Pit was made possible by the Welsh Assembly Government, Heritage Lottery Fund, Wales Tourist Board, the Garfield Weston Foundation, Lloyds TSB Foundation, The Coalfields Regeneration Trust, the Local Regeneration Fund, the Pilgrim Trust and the SR & PH Southall Trust.

November 2003 saw the launch of the *Children of the Revolution* web resource, the result of a partnership between Big Pit and Newport Schools Improvement Service, funded by the General Teaching Council for Wales. The resource looks at working and domestic life in Blaenafon during the nineteenth century. It provides a whole scheme of work for History at Key Stage Two, which has cross-curricular links and can be used as an online resource or downloaded and used for formal educational activity.



## Amgueddfa'r Lleng Rufeinig

Stryd Fawr, Caerllion, NP18 1AE

Ymweliadau yn 2001-02: 70,160

Ymweliadau yn 2002-03: 65,495

Ymweliadau yn 2003-04: 65,041

Targed 2004-05: 66,000

Cafodd Amgueddfa'r Lleng Rufeinig ei sefydlu gan Gymdeithas Hynafiaethwyr Caerllion ym 1850, a'i throsglwyddo i AOCC ym 1930. Mae hi wedi bod yn arddangos casgliad cyfoethog o ganfyddiadau Rhufeinig ers dros 150 o flynyddoedd. Mae'r rhain yn cynnwys cerfluniau, arysgrifau, cerrig beddi, deunyddiau adeiladu, mosäig drysfa, offer milwrol, crochenwaith, gwaith gwydr a gemwaith. At hynny, ail-grewyd Ystafell Farics maint llawn ar y safle sy'n unigryw ym Mhrydain. Mae tref Caerllion yn sefyll ar safle un o dri safle llengol parhaol Prydain Rufeinig.

Un o uchafbwyntiau 2003-04 oedd *Cloddio'r Gorffennol*. Pwrpas y digwyddiad hwn oedd gwahodd y cyhoedd i rannu eu hatgofion am waith cloddio yng Nghaerllion er mwyn i ni gasglu gwybodaeth am y gwaith cloddio a wnaed yn yr ardal yn ystod yr ugeinfed ganrif. Cafodd offer cloddio a llyfrau nodiadau gwreiddiol eu dychwelyd i Gaerllion a'u harddangos drwy gydol y digwyddiad.



## Roman Legionary Museum

High Street, Caerleon, NP18 1AE

Visits in 2001-02: 70,160

Visits in 2002-03: 65,495

Visits in 2003-04: 65,041

Target 2004-05: 66,000

Founded by the Caerleon Antiquarian Association in 1850, and transferred to NMGW in 1930, the Roman Legionary Museum has been displaying a rich collection of Roman finds for over 150 years. These include sculptures, inscriptions, tombstones, building materials, a labyrinth mosaic, military equipment, pottery, glass and jewellery. There is also a full-sized reconstructed Barrack Room, which is unique in Britain. The town of Caerleon stands on the site of one of only three permanent legionary bases in Roman Britain.

One of the highlights in 2003-04 was *Digging Up The Past*; the purpose of this event was to invite members of the public to share their memories of past excavations in Caerleon to increase our knowledge of the excavations conducted in the area during the twentieth century. Original excavation equipment and notebooks were returned to Caerleon and put on display for the event.

Roedd y digwyddiadau mawr eraill yn ystod y flwyddyn yn cynnwys y sioe filwrol boblogaidd. Ar benwythnos brafiar y flwyddyn, gwnaeth Milwyr a Chleddyfwyr Rhufeinig gyrch arall ar y dref. Cafodd dros 4,000 o ymwelwyr eu diddanu gan ornestau'r cleddyfwyr a phriodas Rufeinig a ffilmwyd gan y BBC.

Ar ôl i weithgareddau Penwythnos Dysgu fel Teulu y llynedd ennill gwobr, aethon ni ati i ddatblygu rhagor ar ein gweithgareddau a chreu ardal ryngweithiol ar gyfer ymwelwyr iau. Bob penwythnos, caiff rhan o Ganolfan Capricorn ei thrawsnewid i gynnal pob math o weithgareddau gan gynnwys gwisgo fel Rhufeiniwr, sioe bypedau'r Cleddyfwr a'r llew, lliwio, darllen a gweithgareddau sy'n annog plant i edrych ar y gwrthrychau yn yr oriel. Mae cwisiau ar gael i bob grŵp oedran – gan gynnwys oedolion hefyd.

Yn y gwanwyn cawson ni wahoddiad gan 4 Learning (Channel 4) i helpu i ddatblygu cyfres addysgiadol a gwefan newydd ar thema'r Celtiaid a'r Rhufeiniaid o'r enw *When*



Other events included the popular annual military spectacular. During the hottest weekend of the year, we were once again invaded by Roman Soldiers and Gladiators. Over 4,000 visitors were entertained with gladiatorial combat and were also invited to witness a couple taking part in a Roman Wedding ceremony, which was filmed by the BBC.

Following the creation of the award-winning activities for the Family Learning Weekend last year, activities were developed to create an interactive area for our younger visitors. Every weekend, space within the Capricorn Centre is transformed with a variety of activities including dressing up, a puppet theatre, colouring, reading and activity cases that encourage children to look at the objects in the Gallery. Quizzes for all age groups including adults are also available.

During the spring we were invited by 4 Learning (Channel 4) to play a key role in the development of a new educational series and website about the Celts and Romans,

Lansiwyd y wefan newydd [www.celtiaid-rhufeiniaid.org](http://www.celtiaid-rhufeiniaid.org) yn Amgueddfa'r Lleng Rufeinig ym mis Medi.

The new website [www.celts-romans.org](http://www.celts-romans.org) was launched in September at the Roman Legionary Museum.

*the Romans Came to Wales.* Cafodd gwefan *Rhufeiniaid a Cheltiaid* ei chreu i gyd-fynd â'r gyfres drwy bartneriaeth rhwng AOCC, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd, Prifysgol Cymru Casnewydd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Sir Benfro a Cadw. Mae'r wefan ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac mae'n rhoi gwybodaeth gefndir ar sawl agwedd ar fywyd y Celtiaid a'r Rhufeiniaid yn ogystal â syniadau i athrawon eu defnyddio mewn gwersi a gweithgareddau rhyngweithiol. Lanswyd y safle – [www.celtiaid-rhufeiniaid.org](http://www.celtiaid-rhufeiniaid.org) – ym mis Medi, a gallwch fynd iddo drwy wefan AOCC.

Cafwyd diwedd glo llwyddiannus i'r holl waith caled i godi arian pan ddaeth Prif Weinidog Cymru, Rhodri Morgan AC i agor Gŵyl Gelfyddydau gyntaf Caerllion. Cymrodd deg cerflunydd o bedwar ban y byd ran mewn dathliad pythefnos o hyd i greu cerfluniau ar thema Geltaidd-Rufeinig. Mae'r cerfluniau bellach yn cael eu harddangos ac yn creu Llwybr Cerfluniau o gwmpas Caerllion. Yn ystod y digwyddiad, bu Crochenwyr De Cymru'n arddangos ac yn gwerthu eu crochenwaith yn yr Amgueddfa gan roi cyfle i blant wneud eu potiau eu hunain hefyd.



Rhodri Morgan AC, Prif Weinidog Cymru, yn agor Gŵyl Gelfyddydau Gyntaf Caerllion yn Amgueddfa'r Llang Rufeinig.

Rhodri Morgan AM, First Minister for Wales, opens the first Caerleon Arts Festival at the Roman Legionary Museum.



entitled *When the Romans Came to Wales.* The *Romans and Celts* website that supports the series was jointly produced by NMGW, the National Trust, Newport Museum & Art Gallery, University of Wales Newport, Pembrokeshire Coast National Park Authority and Cadw. Produced in both Welsh and English it provides background information on many aspects of Celtic and Roman life as well as lesson ideas for teachers and interactive activities. The site – [www.celts-romans.org](http://www.celts-romans.org) – was launched in September and is linked from NMGW's website.

Hard fundraising work paid off when the inaugural Caerleon Arts Festival was opened by the First Minister, the Rt Hon. Rhodri Morgan AM. Ten international sculptors participated in a two-week event to create sculptures on a Celtic-Roman theme. The sculptures are now on display and form a Sculpture Trail around Caerleon. During the event the Museum provided a venue for the South Wales Potters to display and sell pottery, and also gave children the opportunity to throw a pot.



Llumanwr Rhufeinig yn Amgueddfa'r Llang Rufeinig.

A Roman standard-bearer at the Roman Legionary Museum.

## Canolfan Gasgliadau AOCC

Heol Crochendy, Parc Nantgarw, Caerdydd, CF15 7QT  
Ar agor i'r cyhoedd drwy apwyntiad

Mae'r Adran Ddiwydiant yn gweithio yn Nantgarw ar hyn o bryd, gan wasanaethu gofynion curadurol, cadwraeth ac ymchwil y Casgliadau Diwydiannol sydd yn y Ganolfan Gasgliadau ac yn Amgueddfeydd Hanes Cymdeithasol a Diwydiannol AOCC. Rydyn ni wedi creu gweithdai arbennig yma i wneud gwaith cadwraeth ar arteffactau diwydiannol bychain a gweithiau ar bapur, ynghyd â chyfleusterau i wneud gwaith peiranyddol a gwaith coed.

Neilltuwyd rhan helaeth o 2003-04 i gyflawni rhaglen gadwraeth gynhwysfawr ar yr arteffactau fydd yn cael eu harddangos yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe. Manteisiodd 462 o ymchwilwyr ac ymwelwyr ar gyfleusterau'r Ganolfan, ac agorodd ei drysau i'r cyhoedd am Ddiwrnod Agored yn ystod Penwythnos Treftadaeth Ewrop ar 20 Medi.

Rydyn ni'n dal i wneud cynnydd wrth ddogfennu casgliad archif yr Adran, a chwblhawyd y gwaith o ddogfennu tystysgrifau cyfrandaliadau a dogfennau trafndiaeth a morwrol. Mae casgliadau'r diwydiant glo a ffotograffau trafndiaeth yn cael eu dogfennu ar hyn o bryd.

Mae'r Adran Ddiwydiant wedi chwarae rhan flaenllaw ym mhrojectau partneriaeth AOCC yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, drwy fenthg *Afon Cefni*, darlun o long hwyllo o Ynys Môn i Oriol Ynys Môn, Llangefni, a benthg pumdeg saith o deganau a wnaed yng Nghymru i Amgueddfa Casnewydd ar gyfer ei harddangosfa *Toy Stories*.



## NMGW Collections Centre


Heol Crochendy, Parc Nantgarw, Cardiff, CF15 7QT  
Open to the public by appointment

The Department of Industry currently operates from Nantgarw, servicing the curatorial, conservation and research requirements of the Industry Collections at the Collections Centre and NMGW's Social & Industrial History museums. Workshops to deal with the conservation of small industrial artefacts and works on paper have been established at the Collections Centre, and facilities for the provision of engineering and woodworking have been recently installed.

Much of 2003-04 was devoted to a comprehensive conservation programme of artefacts to be displayed in the new National Waterfront Museum in Swansea. An open day was held at the Collections Centre on 20 September as part of the European Heritage Weekend and 462 researchers and visitors made use of the Collections Centre's facilities.

Progress continues in the documentation of the Department's archival collection, with the documentation of share certificates and transport and maritime documents completed. Collections relating to the coal industry and transport photographs are currently being documented.

The Department of Industry has played a significant part in NMGW's partnerships projects over the past year, with the loan of the painting of the Anglesey-owned sailing ship *Afon Cefni* to Oriol Ynys Môn, Llangefni, and the loan of fifty-seven Welsh-made toys to Newport Museum for their exhibition *Toy Stories*.



Peintwyd *Afon Cefni* gan Alex Cromarty, artist o'r Alban, ym 1892. Y llong yma oedd un o'r rhai olaf o feddiant Brodyr Davies, Porthaethwy.

The *Afon Cefni*, painted by the little-known Scots artist Alex Cromarty in 1892. The ship was one of the last vessels owned by Davies Brothers of Menai Bridge.



Teganau o gasgliad yr Adran Ddiwydiant. Ar fenthg i Amgueddfa Casnewydd.

Toys from the Industry Department's collection, on loan to Newport Museum.

**‘Bydd syniadaeth a dyluniad yr Amgueddfa newydd yn golygu mai hi fydd un o amgueddfeydd mwyaf arloesol Ewrop. Ei nod fydd adrodd stori cyfraniad aruthrol Cymru at y Chwyldro Diwydiannol, nid yn unig yn y wlad hon ond ledled y byd.’**



## Creu'r dyfodol

### Math newydd o amgueddfa ar gyfer Abertawe a Chymru

Mae'r gwaith i adeiladau Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe ar gost o £30m yn datblygu ar garlam.

Bydd syniadaeth a dyluniad yr Amgueddfa newydd yn golygu mai hi fydd un o amgueddfeydd mwyaf arloesol Ewrop. Ei nod fydd adrodd stori cyfraniad aruthrol Cymru at y Chwyldro Diwydiannol, nid yn unig yn y wlad hon ond ledled y byd. Er mwyn helpu ymwelwyr i ddeall natur Cymru heddiw, bydd yr amgueddfa'n esbonio hanes diwydiannol Cymru adeg y chwyldro ac ers hynny, ac yn ystyried dylanwad diwydiant a masnach forwrol ar fywydau'r bobl.

Mae'r Amgueddfa newydd, fydd yn agor yn haf 2005, yn cael ei datblygu mewn partneriaeth â Dinas a Sir Abertawe fel rhan o gynllun 'atyniad i gyrchfan' a'r gobaith yw denu 250,000 o ymwelwyr y flwyddyn.

Mae'r ymgyrchoedd marchnata a chodi arian wedi denu cefnogaeth y darlledydd o'r fro, Huw Edwards. Yn ystod y flwyddyn, bu'n lledaenu'r neges fod y datblygiad yn allweddol i adfywio Abertawe i gyd wrth gysylltu canol y ddinas â'r môr.

## Creating the future

### A new kind of museum for Swansea and Wales

During 2003-04, dramatic progress was achieved on building the new £30m National Waterfront Museum in Swansea.

Conceived and designed as one of the most innovative national museums in Europe, it will tell the story of Wales's huge contribution to the Industrial Revolution, not only in Wales but also across the rest of the world. It will explain the industrial history of Wales through this period and beyond, reflecting on how industrialisation and maritime trading influenced the lives of people in Wales in order to understand the nature of Wales today.

Due to open summer 2005, it is anticipated that 250,000 visitors a year will be attracted to the new museum, which is being developed in partnership with the City & County of Swansea as part of a 'destination attraction'.

The locally born broadcaster Huw Edwards has lent his support to the project's fundraising and marketing campaigns. During the year, he has championed the message that the development is key to regenerating the whole of Swansea, as it creates a link that connects the city centre back with the sea.




Rydyn ni'n disgwyl i'r Amgueddfa greu rhyw drideg pump o swyddi, ond bydd o leiaf pumdeg pump o swyddi ar draws y datblygiad i gyd, gan gynnwys staff yr unedau adwerthu fydd yn rhan o gynllun cyffredinol yr amgueddfa.

Yn ôl adolygiad gwerthuso gan Uned Ymchwil Economaidd Cymru, bydd y cynllun gwerth £30m yn arwain at fuddsoddiad tymor byr o £41.8m ar draws Cymru, yn arbennig yn y diwydiant adeiladu (£13m), gyda chyfanswm o 940 o flynyddoedd o gyflogaeth cyfartal ag amser llawn yn cael eu creu yn ystod y cyfnod hwn. Yn ôl yr amcangyfrif, bydd gweithrediad y safle yn creu 95 o swyddi ychwanegol. At hynny, mae'n debygol y bydd datblygiad y 'cyrchfan' ehangach yn creu 425 o swyddi cyfartal ag amser llawn.

Yn ogystal ag AOCC a Dinas a Sir Abertawe, mae noddwyr mawr eraill Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn cynnwys Cronfa Drefadaeth y Loteri (£11.1m), Llywodraeth Cynulliad Cymru (hyd at £6m), Awdurdod Datblygu Cymru (£2.5m), Cronfa Amcan Un yr UE (£3.7m) a Bwrdd Croeso Cymru (£1.6m).

*'Conceived and designed as one of the most innovative national museums in Europe, it will tell the story of Wales's huge contribution to the Industrial Revolution, not only in Wales but also across the rest of the world.'*



The Museum is anticipated to provide around thirty-five jobs, but the total for the overall development will be at least fifty-five including people employed in the retail units that will form part of the overall museum scheme.

A Welsh Economic Research Unit appraisal review calculated that the £30m scheme would result in the short-term investment of £41.8m across Wales, most particularly in the construction industry (£13m), with a total of 940 employment full-time equivalent person-years being generated during this period. Operational activity is calculated as generating an additional 95 jobs. In the wider 'destination' setting, the development is considered likely to generate 425 additional full-time equivalent jobs.

In addition to NMGW and the City & County of Swansea, other major funders of the National Waterfront Museum include the Heritage Lottery Fund (£11.1m), Welsh Assembly Government (up to £6m), Welsh Development Agency (£2.5m), EU Objective One (£3.7m) and Wales Tourist Board (£1.6m).



# Creu cysylltiadau

## Gweithio gyda Chymru, y DU a'r byd

Mae AOCC wrth galon pob math o bartneriaethau rhanbarthol, cenedlaethol, DU-eang a rhyngwladol sy'n gweithredu mewn amrywiaeth o wahanol feysydd. Llewyrchodd y rhan yma o'n gwaith eto yn 2003-04.

O waith ymchwil i amgylchedd Cymru, ei harfordiroedd a'i moroedd, i roi cyflwyniadau ar wrthrychau a dodrefn hanesyddol rhai o dai ac amgueddfeydd mwyaf adnabyddus Cymru, mae casgliadau ac arbenigedd AOCC yn hanfodol bwysig.

Cynllun Cyfoeth Cymru Gyfan sydd wedi bod yn flaenllaw yn ein projectau partneriaeth yn ddiweddar. Wrth wraidd y project mae'r ymrwymiad i arddangos gwrthrychau o wahanol gasgliadau AOCC mewn gwahanol amgueddfeydd ledled Cymru. Diolch i gyllid ychwanegol oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad drwy Gyngor yr Amgueddfeydd yng Nghymru (CAmgC), mae'r tair canolfan peilot wedi cael eu hymestyn i bump sef: Oriel Ynys Môn, Llangefni; Amgueddfa Cyngor Bwrdeistref Wrecsam; Amgueddfa ac Oriel Gelf Brycheiniog, a bellach Amgueddfa Sir Gaerfyrddin ac Amgueddfa Pont-y-pŵl.

Drwy'r projectau hyn rydyn ni wedi llwyddo i greu arddangosfeydd bychain ond cryf sy'n gosod gwrthrychau yn eu milltir sgwâr ac sy'n defnyddio syniadau dysgu a gwaith ymchwil newydd sydd wedi codi wrth i staff AOCC weithio gyda staff lleol i'w hategu.



Alun Pugh AC yn agor arddangosfa'r *Palas ar y Llyn* (gweler t. 33) yn Amgueddfa ac Oriel Gelf Brycheiniog ym mis Mawrth. Roedd yr arddangosfa'n dangos y gwaith cloddio ar grannog Llyn Syfaddan.

Alun Pugh AM opens the exhibition *The Palace in the Lake* (see p. 33) in Brecknock Museum & Art Gallery in March. The exhibition illustrated excavation on the crannog in Llangors Lake.

# Creating alliances

## Working with Wales, the UK and the world

NMGW is the hub of a variety of regional, national, UK and international partnerships operating in a host of different contexts. This area of our work continued to flourish during 2003-04.

From research into the environment of Wales, its coasts and seas, to presenting historic objects and furnishings in some of Wales's best known houses and museums, NMGW's collections and expertise play a fundamental role.

Most attention to our partnership projects has recently been given to our work with the scheme Cyfoeth Cymru Gyfan-Sharing Treasures. At its core has been the commitment to present objects from different areas of NMGW's collections in selected museums throughout Wales. Facilitated by additional investment by the Assembly Government via the Council for Museums in Wales (CMW), the three pilot venues have recently expanded to five: Oriel Ynys Môn, Llangefni; Wrexham County Borough Museum; Brecknock Museum & Art Gallery, and now Carmarthenshire County Museum and Pontypool Museum.

These projects have generated strong small-scale displays and exhibitions and have set material related to the locality of the museum alongside new research and learning ideas

Y peth allweddol yw'r syniad o bartneriaeth – yn hytrach na gwasanaeth benthyca neu gynghori. Mae'r gwahaniaeth cynnil hwn wedi bod yn bwysig i'r partneriaid wrth i ni ddechrau trafod dyfodol y cynllun gyda CyMAL, cyngor newydd amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd Cymru, fydd yn cymryd yr awenau o ddwylo CAmgC.

Yn ogystal, mae AOCC yn gweithio mewn partneriaeth ar waith ymchwil, addysg a datblygu cynulleidfaoedd. Mae'r project Ar Dir Cyffredin wedi meithrin perthnasau mewn pedair ardal yng Nghymru (gweler t. 73). Mae hyn yn cydategu partneriaethau eraill ein darpariaeth uniongyrchol ym meysydd dysgu a mynediad. Mae manylion rhai o'r partneriaethau, gan gynnwys partneriaethau ymchwil, i'w gweld mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn.

Mae gwaith partneriaeth mewn sefydliad fel AOCC yn rhan annatod o'n gwaith ledled y DU a'r tu hwnt. Roedd gweithio mewn partneriaeth yn allweddol i lwyddiant arddangosfa gyntaf Gwobr Artes Mundi. Project annibynnol oedd y gystadleuaeth celf gyfoes ryngwladol hon ond aeth y partneriaid, oedd yn cynnwys y BBC, Cyngor Sir Caerdydd a'r lleill ati i greu digwyddiad ag iddo gwmpas gwirioneddol rhyngwladol.

Diolch i rôl AOCC fel aelod o broject Partneriaethau DU yr Amgueddfa Brydeinig, mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer amrywiaeth o brojectau dros y ddwy neu dair blynedd nesaf, gan gynnwys yr arddangosfa fawreddog *Trysor Cudd: darganfod ein gorffennol*.

Mewn sefydliad cymhleth fel AOCC, rhaid dewis a dethol enghreifftiau i ddangos y perthnasau sydd gennym y tu hwnt i'n muriau. Yn ogystal â bod yn rhan hanfodol o waith amgueddfeydd ac orielau, mae partneriaethau'n hanfodol i'w llwyddiant.

generated by NMGW staff working with locally based staff. Partnership – rather than service provision through loans or advice – has been key. This subtle distinction has also been debated by the partners as we begin to discuss the future with CyMAL, the new council for museums, archives and libraries in Wales, as it takes over the scheme from CMW.

Alongside, NMGW works in partnership in research, education and audience development. The project On Common Ground has forged relationships in four different localities in Wales (see p. 73). This complements other partnerships that are part of our direct provision in the arenas of learning and access. Some of these partnerships feature elsewhere in this report, as do research partnerships.

Partnership working in an organization like NMGW inevitably translates into our work across the UK and beyond. Partnership was key to the success of the first Artes Mundi Prize Exhibition. This international contemporary art competition was created as an independent entity through which partners including the BBC, Cardiff County Council and many others generated an event of genuinely international scope.

The role NMGW has as one of the members of the British Museum's Partnerships UK project saw plans being put in place for a variety of projects over the next two to three years, commencing with the major exhibition *Buried Treasure: Finding our Past*, which opened in London in the autumn before coming to Cardiff in May.

In a complex organization on the scale of NMGW, picking out examples such as these only highlights a few of the relationships we have beyond our walls. Working in partnership is not only an essential component of working in museums and galleries: it is essential to their success.

*'Yn ogystal â bod yn rhan hanfodol o waith amgueddfeydd ac orielau, mae partneriaethau'n hanfodol i'w llwyddiant.'*

*'Working in partnership is not only an essential component of working in museums and galleries: it is essential to their success.'*

# Safonau gwreiddiol

## Gwasanaethau canolog yn AOCC

**‘Mae cael gweld pethau  
a dysgu amdanyh nhw’n  
gwneud gwahaniaeth  
mawr. A phan welwch  
chi pa mor galed mae  
rhai pobl wedi gweithio  
i greu rhywbeth, mae’n  
eich ysbrydoli chi i wneud  
yr un ymdrech yn eich  
bywyd eich hun.’**

Khurshid Ali, aelod o MEWN CYMRU a gymrodd ran yn y rhaglen *Dewiswch Chi!*

### Addysg

Mae gwaith yr Adran Addysg yn cwmpasu pob safle, pwnc ac oedran. Eleni, roedd ein rhaglen helaeth o brojectau Dysgu Gydol Oes yn canolbwyntio'n arbennig ar gyrraedd cynulleidfaoedd newydd, defnyddio TGCh i ddysgu a gwaith ar y thema 'dysgu i fyw mewn ffordd wahanol'.

Roedd AOCC wedi comisiynu Canolfan Ymchwil i Amgueddfeydd ac Oriolau Prifysgol Caer-lŷr i wneud project ymchwil ar bobl sydd ddim yn ymweld er mwyn adeiladu ar lwyddiant mynediad am ddim. Tynnodd yr adroddiad sylw at anghenion pobl hŷn, pobl ifanc, lleiafrifoedd ethnig, siaradwyr Cymraeg a chymunedau a chanddynt adnoddau cyfyngedig – y grwpiau hyn oedd ein blaenoriaeth yn 2003-04.

Mae llawer o bobl hŷn yn hyderus wrth ddefnyddio amgueddfeydd eisoes, ond i'r lleill, lansiodd yr Amgueddfa ac Oriol Genedlaethol raglen *Trafod dros De*. Aeth y staff allan at bobl hŷn mewn amrywiaeth o leoliadau i roi blas ar gyfres o sgrysiâu sydd wedi eu cynllunio'n arbennig ar gyfer ymwelwyr hŷn. Aeth y Pwll Mawr a'r Gwasanaeth Allestyn ati i greu darpariaeth ar gyfer pobl hŷn drwy ddatblygu'r project *Hel Atgofion* mewn partneriaeth ag Amgueddfa Pont-y-pŵl, a bu Amgueddfa Lechi Cymru'n gweithio gyda'r *Trefoil Guild of older ex-Girl Guides* ar waith artist y chwareli, M. E. Thompson.

## Original standards Central services at NMGW

### Education

The work of the Education Department encompasses all sites, subjects and age ranges. This year, our wide-ranging Lifelong Learning programme included a particular focus on reaching new audiences, the educational use of ICT and work on the theme of 'learning to live differently'.

To build on the success of free entry, NMGW had earlier commissioned the Research Centre for Museums and Galleries at the University of Leicester to undertake a research project on our non-visitors. The resulting report highlighted the needs of older people, young people, families, ethnic minorities, Welsh speakers and communities with limited resources – groups that became our priority for 2003-04.

Many older people are confident users of museums, but for those who are not, the National Museum & Gallery launched its *Tea and Talking Points* programme. Staff visited older people in a variety of settings, offering taster sessions for a series of talks especially designed for older visitors. Big Pit and our Outreach Service catered for an older audience with the development of the *Down Memory Lane* reminiscence project in partnership with Pontypool Museum, while the Welsh Slate Museum worked with the *Trefoil Guild of older ex-Girl Guides* on the quarry-artist M. E. Thompson.

Daeth Ar Dir Cyffredin, project blaenllaw AOCC oedd yn targedu pobl ifanc dan anfantais rhwng undeg chwech a dauddeg pedwar oed i ddiwedd glo gydag arddangosfa o'u gwaith yn yr Amgueddfa ac Oriol Genedlaethol a welwyd gan 25,000 o ymwelwyr. Daeth cynrychiolwyr un ar ddeg o brojectau yn ardaloedd Dinbych, Sir Benfro, Abertawe a Rhondda Cynon Taf at ei gilydd i rannu eu profiadau o gynllunio adnoddau i godi ymwybyddiaeth eu cyfoedion am dreftadaeth. Roedd y gwaith yn cynnwys fideos, gwaith celf, llwybrau, caneuon, cerddi a baneri. Mae disgrifiad llawn o'r project ar gael yn [www.oncommonground.co.uk](http://www.oncommonground.co.uk). Cafodd y project gymorth hael gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, Sefydliad Lloyds TSB, Elusennau JP Morgan Fleming a Dysg.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethon ni astudiaeth ar bob un o'n safleoedd i weld pa mor hwylus ydyn nhw i deuluoedd. Roedd yr astudiaeth yn cyfuno asesiad o faterion ymarferol, fel pa mor hygyrch yw'r gwahanol safleoedd, ag adolygiad o'r cyfleoedd a'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer dysgu fel teulu. O ganlyniad i hyn, aeth pob safle ati i wella eu cyfleusterau ar gyfer dysgu fel teulu, gan gynnwys cyflwyno llwybrau a digwyddiadau i deuluoedd, Certiau Celf dan nawdd Legal & General a 'thywyswyr byw' i weithio gyda theuluoedd yn yr Amgueddfa ac Oriol Genedlaethol. Mae Amgueddfa'r Llang Rufeinig ac Amgueddfa Lechi Cymru wedi neilltuo lle arbennig i gynnal gweithgareddau i'r teulu adeg gwyliau ac ar benwythnosau hefyd.



Gweithdy darlunio botanegol, rhan o'r rhaglen ddigwyddiadau *Trafod dros De* ar gyfer ymwelwyr hŷn.

Participants in a botanical illustration workshop, part of the *Tea and Talking Points* programme of events for older visitors.

On Common Ground, NMGW's flagship social inclusion project targeting young people between ages sixteen and twenty-four in disadvantaged circumstances, culminated in a display of work at the National Museum & Gallery that was seen by 25,000 visitors. The participants of eleven projects in Denbigh, Pembrokeshire, Swansea and Rhondda Cynon Taf met to exchange experiences of devising resources that would raise awareness of heritage amongst their peers – including videos, artwork, trails, songs, poetry and banners. The innovative methods used to engage with young people have attracted UK-wide interest, and a full description of the project appears at [www.oncommonground.co.uk](http://www.oncommonground.co.uk). The project was supported by the Heritage Lottery Fund, the Lloyds TSB Foundation, Dysg and JP Morgan Fleming Charities.

During the course of the year, we conducted a 'family friendly' audit at each of our sites. This combined an assessment of practical issues relating to accessibility, with a review of opportunities and resources for family learning. As a result, all sites improved the facilities for family learning, including introducing new family trails and events, the Art Cart sponsored by Legal & General and 'live guides' to work with families at the National Museum & Gallery and special family activity areas for holidays and weekends at the Roman Legionary Museum and the Welsh Slate Museum.

**‘It really makes a  
difference when you get  
to see things and find out  
about them. And when  
you see how hard people  
have worked to create  
something, it inspires you  
to make the same effort  
in your own life.’**

Khurshid Ali, a MEWN CYMRU member involved in the *You Choose!* programme

Roedd ein Gŵyl Cymru a'r Byd gyntaf yn targedu grwpiau ethnig yng Nghaerdydd yn ystod penwythnos arbennig i ddathlu diwylliannau amrywiol Cymru. Gweithiodd ein staff gyda pherfformwyr ac artistiaid o gymunedau cyfagos i drefnu dathliad dau ddiwrnod o hyd yn yr Amgueddfa ac Oriol Genedlaethol. Daeth nifer dda o bobl a chafodd y digwyddiad ganmoliaeth Cymdeithas yr Amgueddfeydd am dorri tir newydd yn ystod Mis yr Amgueddfeydd ac Oriolau. Yn ystod Mis Hanes y Bobl Dduon, trefnodd Oriol Glanely weithgareddau gyda Chanolfan Hanes a Chelfyddydau Butetown a Choleg Celf a Drama Brenhinol Cymru oedd yn cynnwys adrodd straeon, hanesion llafar a chyngerdd jazz. Yn yr Amgueddfa Werin, cafodd rhaglen o weithgareddau ei datblygu ar y cyd â'r gymuned leol i gyd-fynd â'r arddangosfa *Drych, Glain ac E dau* ar decstilau talaith Gwjerat. Roedd hyn yn cynnwys gweithdai brodio Indiaidd a dathliadau Divali.

Er mwyn adeiladu ar ein hymrwymiad i'r Gymraeg, aethon ni ati i gychwyn project arloesol ar gyfer dysgwyr o'r enw *Llwybrau Llafar Sain Ffagan*. Cawson ni £20,000 oddi wrth ELWa i greu adnoddau ar y we ar gyfer tiwtoriaid Cymraeg i oedolion. Dechreuodd y cynllun *Dewiswch Chil* yn yr Amgueddfa ac Oriol Genedlaethol. Dyma gyfle i grwpiau penodol ddewis gweithiau celf o gasgliadau'r Amgueddfa a churadu eu harddangosfeydd eu hunain.



Our first Wales & the World Festival directly targeted ethnic groups in Cardiff in a weekend of festivities celebrating the diverse cultures of Wales. We worked with performers and artists from surrounding communities to create a two-day event at the National Museum & Gallery that was well attended and highly commended by the Museums Association as an innovative Museums & Galleries Month event. During Black History Month, the Glanely Gallery arranged activities with Butetown History and Arts Centre and the Royal Welsh College of Music and Drama, which included storytelling, oral history and a jazz concert. At the Museum of Welsh Life, the *Mirror, Bead and Thread* exhibition of Gujarati textiles was accompanied by a programme of activities developed in collaboration with the local community, including Indian embroidery workshops and Divali celebrations.

To build on our commitment to Welsh language provision, we initiated *Llwybrau Llafar Sain Ffagan*, an innovative project for learners, and were awarded £20,000 by ELWa to produce web-based materials for tutors. At the National Museum & Gallery, we introduced *You Choose!*, an opportunity for members of particular communities to choose artworks from the Museum's collections and curate their own displays.

Yn ogystal â datblygu cynulleidfaoedd newydd, rydyn ni wedi dal ati i chwilio am ffyrdd gwell o ddefnyddio TGCh ar gyfer dysgu. Rydyn ni wedi ceisio ymestyn ac ehangu'r wefan i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sesiynau i ysgolion, ynghyd â phecynnau i athrawon eu lawrlwytho. Diolch i gyllid oddi wrth Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, aethon ni ati gyda Gwasanaeth Gwella Ysgolion Casnewydd i weithio gydag athrawon i ddatblygu pecyn ar y we o'r enw *Plant y Chwyldro*. Nod y pecyn am Flaenafon yw gwella gwybodaeth a dealltwriaeth plant am hanes, yn ogystal â datblygu eu sgiliau a magu hyder ym meysydd TGCh a llythrennedd. Yn Amgueddfa'r Lleng Rufeinig, lanswyd gwefan Celtaid a Rhufeiniaid – [www.celtaid-rhufeiniaid.org](http://www.celtaid-rhufeiniaid.org) – i gyd-fynd â chyfres Channel 4 *When the Romans Came to Wales*, eto ar y cyd ag athrawon. Mae'r pecyn dwyieithog hwn yn rhoi gwybodaeth am fywyd bob dydd y Rhufeiniaid a'r Celtaid, ynghyd â syniadau am wersi a gweithgareddau rhyngweithiol.

Thema sylfaenol ein menter *Peidiwch â Difa'r Ddaear!* ac AmgylchWyl oedd ein heffaith ni ar yr amgylchedd a sut gallwn ni wneud gwahaniaeth. Cafodd dros 5,000 o ddisgyblion gyfle i fwynhau gweithdai *Peidiwch â Difa'r Ddaear!*, sy'n codi ymwybyddiaeth am ein hôl troed byd-eang yng Nghymru, a chafodd dros 800 o athrawon hyfforddiant yn rhan o'r



In addition to developing new audiences, we have continued to develop ways of improving learning through ICT, expanding and developing the website to provide up-to-date information on sessions for schools and downloadable packs for teachers. In partnership with Newport School Improvement Service and with funding from the General Teaching Council for Wales, we worked with teachers to develop *Children of the Revolution*, a web resource on Blaenafon, designed to improve children's historical knowledge and understanding, as well as developing their skills and confidence in ICT and literacy. At the Roman Legionary Museum we launched a Romans and Celts website – [www.celts-romans.org](http://www.celts-romans.org) – supporting the Channel 4 series *When the Romans Came to Wales*, once again developed with teachers. This bilingual resource provides information on the everyday life of Romans and Celts, together with lesson ideas for teachers and interactive activities.

What we are doing to our environment and how we can make a positive difference was the under-pinning theme of our *Don't Stamp Out the Earth!* initiative and the Ecofun Festival. The *Don't Stamp Out the Earth!* project, which aimed to encourage awareness of our global footprint in Wales, featured workshops attended by more than 5,000 pupils

*‘Yn ogystal â datblygu cynulleidfaoedd newydd, rydyn ni wedi dal ati i chwilio am ffyrdd gwell o ddefnyddio TGCh ar gyfer dysgu.’*

*‘In addition to developing new audiences, we have continued to develop ways of improving learning through ICT.’*

fenter. At hynny, cymrodd dros 600 o deuluoedd ac 80 ysgol ran yn ein Cystadleuaeth Llawn Sbwriel gyda'r bwriad o leihau sbwriel. Eleni oedd y trydydd tro i'r Amgueddfa Werin gynnal yr AmgylchWyl flynyddol a denodd dros wythdeg o ddigwyddiadau a gweithgareddau gan gynnwys Ffair Eco-fabanod, marchnad ffermwyr, stondinau ac arddangosfeydd ymarferol. Nod y cyfan oedd annog yr ymwelwyr i Adfer, Aildddefnyddio ac Ailgylchu.

Ar ben hynny i gyd, rydyn ni wedi dal ati i ddatblygu mathau newydd o weithgareddau addysg allestyn mewn digwyddiadau cenedlaethol. Rhoddodd Eisteddfod yr Urdd gyfle i ni edrych ar waith yr artist Thomas Jones yng nghyffiniau ei stad, ac yn y Brifwyl, buon ni'n gweithio gyda Chywaith Cymru i archwilio'r cysylltiadau rhwng yr Amgueddfa Werin ac ardal Meifod. Yn dilyn ymweliadau a gweithdai mewn ysgolion cynradd; sesiynau gyda ffermwyr ifanc, beirdd a storiwyr lleol; ac ymweliadau â ffermydd a chaeau, bu'r artistiaid Christine Mills a Carlos Pinatti'n gweithio ar themâu cyfathrebu a hunaniaeth. Ffrwyth y gwaith oedd gosodwaith amlygyrwyng y tu fewn a'r tu allan i'r pafiliwn Celf a Chrefft gan gynnwys fideo, cerddoriaeth, dillad gwlan a chesys o wrthrychau roedd yr artistiaid wedi eu casglu.



Disgyblion yn dysgu beth ddylai gael ei aildddefnyddio a'i ailgylchu mewn gweithdy Peidiwch â Difa'r Ddaear! yn AmgylchWyl.

Pupils learning what should be re-used and recycled during a *Don't Stamp Out the Earth!* workshop at the Ecofun festival.

and provided training for over 800 teachers. Furthermore, more than 600 families and 80 schools took part in our Really Rubbish Competition, designed to reduce waste. The third annual Ecofun festival at the Museum of Welsh Life packed in more than eighty events and activities, including a Green Baby Fair, farmers market, stalls and demonstrations – all with the aim of encouraging visitors to Reduce, Re-use and Recycle.

In addition to all the above, we continued to develop new forms of educational outreach activity at national events. The Royal Welsh Show provided an opportunity to consider the artist Thomas Jones in the vicinity of his estate, while at the National Eisteddfod we worked with Cywaith Cymru to explore links between the Museum of Welsh Life and the Meifod area. Following visits and workshops in primary schools, sessions with young farmers, poets and local story tellers and outings to farms and fields, artists Christine Mills and Carlos Pinatti worked on the themes of communication and identity. The result was a multi-media installation outside and inside the Art and Craft pavilion involving video, music, woollen garments and cases of objects collected by the artists.

## Marchnata a Chysylltiadau Cyhoeddus

Er ei fod ychydig yn is na'r targed o 1.25 miliwn a bennwyd ar gyfer 2003-04, mae'r ffigur terfynol o 1,222,206 o ymweliadau yn dipyn o gamp i'r Adran Farchnata. Mae'n dal i fod 476,971 (64%) yn uwch na 2000-01, sef y flwyddyn olaf cyn cyflwyno mynediad am ddim.

Cafodd y targed gwreiddiol ar gyfer 2003-04 ei bennu ar sail y rhagdybiaeth y byddai'r Pwll Mawr a'r Amgueddfa Wlan Genedlaethol yn ailagor mewn pryd ar gyfer tymor ymwelwyr haf 2003. Ond am fod adfer adeiladau hanesyddol yn codi problemau cadwraeth unigryw, cafodd y gwaith cadwraeth ar y ddau safle ei gwblhau yn hwyrach na'r disgwyl.

Agorodd y gwelliannau yn y Pwll Mawr i'r cyhoedd ar 16 Chwefror 2004 ac agorodd yr Amgueddfa Wlan Genedlaethol ei drysau ar ôl dwy flynedd ar 31 Mawrth 2004. Roedd yr ymgyrchoedd marchnata a chysylltiadau cyhoeddus eraill a gyfrannodd at y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr yn cynnwys agor yr Ardd Eidalaid yn yr Amgueddfa Werin ac arddangosfeydd *Thomas Jones* ac *Artes Mundi* yn yr Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol.

At hynny, lansiodd yr adran fenter newydd yn ystod y flwyddyn oedd yn rhoi cyfle i ymwelwyr gael y wybodaeth ddiweddaraf am safleoedd, gweithgareddau a digwyddiadau AOCC drwy'r post, gan gynnwys y rhestr ddigwyddiadau chwarterol *Ymlaen*. Mae'r gwasanaeth postio newydd, sy'n cynnwys anfon y newyddion diweddaraf at bobl drwy e-bost, yn sicrhau bod ymwelwyr yn cael clywed am ein gwaith ac mae hynny'n helpu i farchnata'r corff mewn ffordd gost-ffeithiol ac effeithlon. Mae'r project yn dangos ôl cydweithio agos rhwng ein timau TG, Gwasanaethau Ymwelwyr a Marchnata.

## Marketing and Public Relations

Although slightly below the 1.25 million target set for 2003-04, the final total of 1,222,206 visits represents a significant achievement for the Marketing Department – the figure was still 476,971 (64%) above 2000-01, the last year of charging.

The setting of the original target for 2003-04 was based on the assumption that both Big Pit: National Mining Museum and the National Woollen Museum were to be re-opened to coincide with the 2003 summer tourism season. The redevelopments at both sites, however, were completed later than expected due to the unique conservation challenges posed by the refurbishment of historical buildings.

The improvements at Big Pit were presented to the public on 16 February 2004 and the National Woollen Museum was re-opened after two years on 31 March 2004. Other marketing and PR campaigns that helped to boost visitor figures included the opening of the Italian Garden at the Museum of Welsh Life and the *Thomas Jones* and *Artes Mundi* exhibitions at National Museum & Gallery.

In addition, our Update initiative was launched during the year to enable visitors to receive information about NMGW sites, events and activities, including the quarterly visitor events and activities guide *What's On*. This new mailing service, including e-mail updates, ensures visitors are kept up-to-date on our work and supports the development of cost effective and efficient marketing for the organization. It represents close collaboration between our IT, Visitor Services and Marketing teams.

**'Mae'r ffigur terfynol o 1,222,206 o ymweliadau yn dipyn o gamp i'r Adran Farchnata.'**

**'The final total of 1,222,206 visits represents a significant achievement for the Marketing Department.'**

## Cyhoeddiadau a Dylunio

Arddangosfa ryfeddol *Thomas Jones: ailddarganfod artist* oedd project mawr yr adran eleni. Cafodd dylunwaith yr arddangosfa ei enwebu ar gyfer Gwobr Ddylunio Dewi Prys-Thomas, a chyrrhaeddodd y catalog, a gyhoeddwyd ar y cyd â Gwasg Prifysgol Yale, restr fer gwobr flaenllaw Art Newspaper/Catalog Arddangosfa Gelf Axa a Gwobr Gelf Berger.

Enillodd gwaith dylunio graffeg yr Amgueddfa, sy'n cynnal rhaglenni arddangos holl safleoedd AOCC a'r arddangosfeydd mewn canolfannau partner, glod Bwrdd yr Iaith Gymraeg eto yn seremoni flynyddol y Gwobrau Ddylunio Dwyieithog.


Yn yr haf, ailargraffwyd y llyfr lluniau poblogaidd *Rhyd-y-car: the story of a mining community* fel argraffiad newydd sbon. Mae'r cyhoeddiad yn adrodd hanes un o atyniadau mwyaf poblogaidd yr Amgueddfa Werin, sef y teras o chwech o dai glowyr. Yn ogystal â dehongliadau poblogaidd, mae AOCC yn cyhoeddi gwybodaeth am ein casgliadau ar gyfer ymchwil academiaidd, ac ymddangosodd dau gatalog y bu disgwyl mawr amdanynt yn yr hydref. Mae'r *Catalogue of Botanical Prints and Drawings* yn gatalog cynhwysfawr o dros 7,000 o'r lluniau botanegol sydd yng nghasgliadau AOCC. Mae'r gweithiau hyn yn amrywio o weithiau dyfrlliw amatur i weithiau gan arlunwyr byd-enwog fel Elizabeth Blackadder a Redouté. Mae'r catalog yn adnodd academiaidd ac yn gofnod hardd o'r briodas rhwng gwyddoniaeth a cheff. Ychwanegiad cyfoes yw'r *Catalogue of Mesolithic and Neolithic Collections* at gatalogau AOCC o'i gasgliad cynhanesyddol. Mae'r llyfr 400 tudalen, a chanddo dros 1,200 o gofnodion catalog yn ogystal â thraethodau rhagarweiniol helaeth, yn ddarn sylweddol o waith sy'n hynod werthfawr i fyd ymchwil.

## Publications & Design

The Department's work was dominated by the remarkable exhibition *Thomas Jones: an artist rediscovered*. The exhibition design was nominated for the Dewi-Prys Thomas Design Award, and the catalogue, co-published with Yale University Press, was shortlisted for the prestigious Art Newspaper/Axa Art Exhibition Catalogue Award and the Berger Art Prize.


The Museum's graphic design, which supports the whole exhibition and display programme at all NMGW sites, as well as displays and exhibitions at partnership venues, was again commended by the Welsh Language Board at their annual Bilingual Design Award ceremony.

In the summer the popular picture book *Rhyd-y-car: the story of a mining community* was reprinted in a brand new edition, telling the story of one of the Museum of Welsh Life's most popular attractions, the terrace of six mineworkers' houses. As well as popular interpretation, NMGW publishes information about our collections for academic research, and two long-awaited catalogues appeared in the autumn. The *Catalogue of Botanical Prints & Drawings* is a comprehensive catalogue of the over 7,000 botanical illustrations in NMGW's collections. These works range from amateur watercolours to works by world-famous artists like Elizabeth Blackadder and Redouté; the catalogue is both an academic resource and a handsome tribute to this marriage of science and art. The *Catalogue of the Mesolithic & Neolithic Collections* is a modern addition to the cataloguing of NMGW's prehistoric collections. At 400 pages and with over 1,200 catalogue entries plus extensive introductory essays the book is a significant piece of work of immense research value.



*Tulipa Lutea Lituris Aureis* gan Basilus Besler (1561-1629), un o ryw 7,000 o weithiau celf botanegol sydd yn y *Catalogue of Botanical Prints and Drawings*.

*Tulipa Lutea Lituris Aureis* by Basilus Besler (1561-1629), just one of the approximately 7,000 botanical artworks in the *Catalogue of Botanical Prints and Drawings*.



